Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru

gan Yr Athro Dai Smith

Medi 2013

Mae'r Adroddiad hwn er Cof

am

Yr Athro Gareth Elwyn Jones

(1939-2013)

"Yr hyn sydd wedi crynhoi llawer o'r tensiynau mewnol a'r gwrthddweud sy'n gysylltiedig â newid a datblygiad yng Nghymru… yw polisi addysg. Ar wahanol adegau yn hanes Cymru, mae addysg wedi dod yn llawer pwysicach na'r hyn sy'n arferol … ac… er 1979, mae addysg unwaith eto wedi bod yn ganolog i drafodaethau am Gymru a Chymreictod"

Yr Athro Gareth Elwyn Jones

Clawr blaen: Gweithdy oriel yn Ffotogallery (Llun Rowan Lear)

Cynnwys

Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru

Rhagair gan yr Athro Dai Smith 03

1. Crynodeb o'r argymhellion 04
Argymhellion
Diffiniadau

2. Hawliad Cymru: Cymru Fydd 06
Y Cyd-destun
Yr arfer/meddylfryd presennol yng Nghymru
Yr hyn y gallwn ei gyflawni a'r hyn y dylem ei gyflawni

3. Tystiolaeth: Y safbwynt rhyngwladol 15
Deilliannau gwell i ddysgwyr
Rôl y celfyddydau o ran gwella llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad
Defnyddio'r celfyddydau ar draws y cwricwlwm
Partneriaethau, hyfforddiant a chymorth

4. Tystiolaeth yn nes adref: Prydain ac Iwerddon 20

5. Y Celfyddydau mewn Addysg yng Nghymru: y trefniadau presennol 24
Y celfyddydau a'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru
Hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus - sut mae'r rhain yn cynorthwyo gydag addysgu'r celfyddydau?
Rôl yr awdurdodau lleol
Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sefydliadau sy'n cael cyllid ganddo

6. Trosolwg: Themâu ymgynghori allweddol 33

7. Canfyddiadau: dadansoddiad ac argymhellion 41

8. Casgliad: Achos Cymru 47

Cylch gorchwyl 53

Rhestr termau 54

Criw Celf, Canolfan Grefft Rhuthun

Rhagair

Mae rhybudd iechyd (rhybudd da) ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Os caiff y rhan fwyaf, o'i argymhellion, neu'r cyfan ohonynt, eu derbyn a'u gweithredu yna gellir sicrhau y bydd newid mawr o ran presenoldeb, dyhead ac, yn y pen draw, gyflawniad yn ysgolion Cymru.

Eto mae'r rhybudd iechyd arall (y rhybudd drwg) yr un mor amlwg ac mae'r ddau'n cael eu cadarnhau gan ymchwil dwys ac ymchwiliad trylwyr. Bydd y syniad y gallai'r celfyddydau fod yn allwedd i newid pethau yn ein hymarfer addysgol presennol yn groes i'r graen i rai, ond mae'r dystiolaeth yn rymus yn fy marn i. At hynny, os cawn ein tanseilio gan broses (gonfensiynol), o ba bynnag fath ac ni waeth pa mor dda yw'r bwriad, yna byddwn yn methu ag ymgysylltu fel cymdeithas gyfan â deilliannau gwirioneddol ein system addysg. Nid yw'r ffaith bod deilliannau'n cael eu mesur yn golygu eu bod yn ddangosyddion dilys.

Mewn geiriau eraill, yn y byd sy'n prysur newid sy'n llawn economïau wedi'u harwain gan waith creadigol wedi'i ysgogi gan hanfodion diwydiannau creadigol, ni fyddwn wedi gofyn mewn gwirionedd am ba reswm rydym yn ceisio gwella llythrennedd a rhifedd. Ni fyddwn felly wedi dod o hyd i'r ffyrdd o drosi sgiliau sylfaenol yn rhinweddau uwch (rhai y gellir eu marchnata a rhai cymdeithasol). Rhaid i ni, er mwyn llwyddo'n economaidd a ffynnu'n gymdeithasol, sicrhau bod addysg o safon wedi'i gwreiddio mewn creadigrwydd fel ymarfer a diwylliant fel gwybodaeth. Wrth wraidd yr undod hwn mae'r celfyddydau – celfyddydau sy'n ysbrydoli ac yna'n creu ein nod dymunol yn y gymdeithas greadigol. Fel arall, ar y gorau, byddwn yn ddynwaredol ac felly'n eilradd.

Roedd llawer o'r hyn a ddysgwyd gennym o'r Adolygiad hwn yn galonogol iawn. Roedd llawer o'r hyn a welsom ac a glywsom, yn enwedig yn y sector cynradd, yn rhagorol ac yn addas at y diben unrhyw le yn y byd. Rheswm arall dros ddweud lle y ceir rhagoriaeth anghyson, dylai fod yn unffurf; lle mae'r rhwystrau yn eu lle, dylid eu dileu; lle mae'r arloeswyr mewn clystyrau, dylent fod wedi'u gwasgaru'n eang; lle mae cydweithio'n achlysurol, dylai fod yn gyson; lle mae'r disgwyliadau'n isel, dylid eu codi; lle mae prinder sgiliau a hyder, dylid eu cyflenwi; a lle mae adnoddau'n gyfyngedig, dylid blaenoriaethu. Yn y pen draw ein dewis ni fydd hyn, ond y naill ffordd neu'r llall, eu dyfodol nhw ydyw.

Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd Ymchwil yn Hanes Diwylliannol Cymru, Prifysgol Abertawe

1. Crynodeb o'r argymhellion

1.	Dylai **Llywodraeth Cymru** gydnabod yn ffurfiol y rôl ganolog y mae'n ei rhagweld ar gyfer addysg gelfyddydol yn ysgolion Cymru drwy ymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel yn y celfyddydau a mynediad i'r celfyddydau.
2.	Dylai **Llywodraeth Cymru** hyrwyddo defnyddio'r celfyddydau i helpu i wella rhifedd a llythrennedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.
3.	Dylai **Llywodraeth Cymru** ehangu'r cwricwlwm presennol i gynnwys creadigrwydd, ochr yn ochr â rhifedd a llythrennedd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc ac mewn addysg gynradd ac uwchradd; at hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried addysg sy'n gyfoethog yn y celfyddydau yn rhan greiddiol o brofiad ysgol gyfan pob disgybl ac ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, dylai sicrhau profiad eang o'r celfyddydau y tu allan i'r ysgol yn ogystal â rhyngweithio ag artistiaid proffesiynol yn yr amgylchedd ysgol.
4.	Dylai'r holl hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a ddarperir gan **sefydliadau AU yng Nghymru** sicrhau bod y fethodoleg addysgu creadigol yn 'greiddiol' i ymarfer addysgol.
5.	Dylai **Llywodraeth Cymru** a **Chyngor Celfyddydau Cymru** weithio gyda grŵp o ymarferwyr addysg profiadol i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Dylai hyn fynd i'r afael ag anghenion athrawon ac ymarferwyr yn y celfyddydau, ac ategu'r blaenoriaethau cenedlaethol o wella safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.
6.	Dylai **Llywodraeth Cymru** gefnogi: o Meithrin 'hyrwyddwyr celfyddydau' yn y cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu creadigol o Gwobrau Celfyddydau Cymru a/neu fedalau i athrawon unigol
7.	Dylid cynnwys yng nghylch gwaith **Cyngor Celfyddydau Cymru** a **llywodraeth leol** yr angen i weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia addysg i flaenoriaethu amrywiaeth o fentrau penodol, i gynorthwyo a datblygu addysgu creadigol, i gynnwys: o Tystysgrifau Nod Celfyddydau Cymru o Mentora athrawon drwy ddefnyddio ymarferwyr y celfyddydau a sefydliadau celfyddydol o Gweithio gyda llywodraeth leol i nodi, datblygu a chynnal system o 'hyrwyddwyr y celfyddydau' mewn ysgolion
8.	Dylai **Llywodraeth Cymru** a **Chyngor Celfyddydau Cymru** sicrhau bod Porth Addysg Creadigol yn cael ei ddatblygu, fel elfen ychwanegol, integredig o 'Hwb', Llwyfan Dysgu Digidol Cymru gyfan
9.	Dylid cynnwys yng nghylch gwaith **Cyngor Celfyddydau Cymru** yr angen i weithio gyda'i gleientiaid sy'n cael cyllid refeniw a sefydliadau diwylliannol eraill i sefydlu 'Rhwydweithiau Dysgu Creadigol' i annog celfyddydau, artistiaid, athrawon, rhieni ac addysgwyr i gyfnewid syniadau a gwybodaeth, ac i gydweithio â Chymunedau Dysgu Proffesiynol i wella safonau dysgu creadigol mewn ysgolion. Dylai'r rhwydweithiau adlewyrchu a llywio'r pedwar consortiwm addysgol rhanbarthol.

10.	Dylai **Llywodraeth Cymru** ymchwilio i opsiynau ariannu wedi eu hanelu at sicrhau bod darpariaeth deg ar gael i bobl ifanc ym mhob celfyddyd, a bod pobl ifanc eithriadol o dalentog yn gallu meithrin a datblygu eu talentau.
11.	Dylai **Llywodraeth Cymru** a **Gyrfa Cymru** weithio mewn partneriaeth i roi pwyslais cryfach ar ddarparu cyngor gyrfa mwy cytbwys i bobl ifanc er mwyn amlygu cyfleoedd a llwybrau yn y celfyddydau a sector y diwydiannau creadigol.
12.	Dylai **Llywodraeth Cymru** ei gwneud yn ofynnol i **Estyn** gynnal archwiliad cyfnodol o ysgolion Cymru i asesu i ba raddau y mae dysgu creadigol yn cael ei ymgorffori ynddynt, ac ansawdd y profiad celfyddydol parhaus a'i effaith ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd.

Diffiniadau

Mae cyfeiriad at 'y celfyddydau' yn yr adroddiad hwn yn cynnwys gwneud, perfformio, mynegi neu werthfawrogi un neu ragor o'r ffurfiau canlynol ar gelfyddyd:

Cerddoriaeth; drama; dawnsio; ffilm a chyfryngau digidol; celfyddydau gweledol a dylunio; llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol.

Cyfeiria'r term 'Y Celfyddydau mewn Addysg' at berthynas gydategol rhwng y sectorau celfyddydol ac addysg a'r ymarferwyr yn y sectorau hyn, sydd wedi'i chynllunio i wella datblygiad personol, rhyngbersonol ac academaidd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys dwy elfen. Yn gyntaf, defnyddio'r celfyddydau fel offeryn addysgeg i wella perfformiad a chyflawniad myfyrwyr ar draws y cwricwlwm ac, yn ail, ymweld â lleoliadau celfyddydol neu weithio gydag ymarferwyr yn y celfyddydau i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc penodol.

Mae i ba raddau y gellir defnyddio'r celfyddydau fel dull o gynorthwyo dysgu yn gallu amrywio'n sylweddol, o weithgarwch allgyrsiol anffurfiol i gael eu hintegreiddio'n llawn yn y cwricwlwm, sy'n cynnwys defnydd strwythuredig o weithgarwch yn seiliedig ar y celfyddydau yn yr addysgu ar draws disgyblaethau academaidd eraill. Felly, yn ein hastudiaeth llwyddwyd i ddefnyddio corff sylweddol o ymchwil addysgol bresennol i'r celfyddydau mewn addysg ledled y byd yn ogystal ag yn nes adref.

Mae'n amlwg o'r ymchwil a'r astudiaethau a werthuswyd bod gwledydd ledled y byd yn cydnabod arwyddocâd a photensial y celfyddydau o ran galluogi gwell deilliannau addysgol, cymdeithasol ac economaidd ac, yn wir, maent wedi dadlau ers cryn amser ynghylch goblygiadau hyn o ran polisi addysgol a chymdeithasol. Ceir cysondeb rhyfeddol rhwng y gwahanol astudiaethau o ran eu canfyddiadau a'r argymhellion a wneir ganddynt.

2. Hawliad Cymru: Cymru Fydd

Yn yr unfed ganrif ar hugain sydd ohoni, yn gynyddol bydd addysg yn dod yn sail i gymdeithas greadigol, economi greadigol a diwylliant creadigol. Bydd creadigrwydd, neu fod yn agored i gaffael gwybodaeth newydd a sgiliau arloesol, yn llunio ein byd yn wahanol i unrhyw rym arall y gellir ei ddychmygu. Yn ei hanfod, dyma sail dysgu gydol oes, ac mae hynny'n dechrau yn ein hysgolion. Mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu'r dewisiadau sydd gennym os byddwn yn dweud gwneud hon yn ennyd dyngedfennol o ran newid addysgol. Mae'n dadansoddi'r dystiolaeth sy'n dangos pa mor hanfodol i greadigrwydd fyddai gwneud y celfyddydau'n ddeinameg ar draws pob disgyblaeth pwnc, ac yn nodwedd ganolog o fywyd ysgol a myfyrio ar hyn. Daw i'r casgliad fod yr achos wedi'i wneud. Mae'r ateb i'r cyfyng gyngor presennol yn ein system addysg yng Nghymru i'w ganfod yn yr Adroddiad hwn. Rhaid i ni wybod beth yw ein diben strategol cyn i ni ddefnyddio ein hofferyn tactegol. Dylem ddiffinio'r hawliad y mae angen i Gymru ei wneud ar ei system addysgol. Ailddylunio yw'r ateb, nid profi a gwneud mân newidiadau. Nid yw'r ffaith bod y ffordd yn glir yn golygu ei fod yn orchwyl hawdd neu syml. Ond Hawliad Cymru yw: *dylid gwneud yr hyn y gellir ei wneud.*

Dechreuwn gyda nifer o fanteision penodol. Ar draws y sector cyfan, dim ond 1,698 o ysgolion a gynhelir sydd gennym. Mae 1,412 ohonynt yn ysgolion cynradd a 221 yn ysgolion uwchradd, ynghyd â 43 o ysgolion arbennig, ac mae 56 o ysgolion uwchradd a 461 o ysgolion cynradd yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o fewn y ffigur cyffredinol *(ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13)*. Mae'r rhain yn niferoedd y gellir eu rheoli os ydym yn mynd i drefnu ar gyfer 'y gorau ym mhopeth a phob man' a defnyddio'r ymadrodd a ddefnyddiwyd gan Aneurin Bevan ar gyfer darpariaeth ac ymarfer mwyaf dymunol llywodraeth ddemocrataidd. Ac yma yng Nghymru heddiw mae gennym gyfle i gael arweiniad gan y llywodraeth i sicrhau hynny. Ymhellach, rydym yn symud ymlaen i'r ganrif hon, fel y gwnaethom ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, gyda lliaws ysblennydd o sefydliadau y mae eu bwriadau hanfodol yn gysylltiedig ag anghenion dinesig ehangach cymdeithas gyfoes, ddoe a heddiw, sy'n amlwg yn ceisio cyflawni diben cymdeithasol.

"Mae amgueddfeydd (hefyd) yn ymwneud â'r hyn a alwodd William Morris yn 'addysg dymuniad' - ysgogi dymuniad i wella ansawdd ein bywydau. Maent yn caniatáu i ni ddysgu drwy ein synhwyrau, yn arbennig y golwg, y clyw a'r cyffyrddiad, mewn ffyrdd sy'n rhoi pleser i ni. Maent yn datblygu ein teimladau yn ogystal â'n canfyddiad, ein pwerau i ddadansoddi, ein hymwybyddiaeth foesol, ein dychymyg a'n creadigrwydd. Rhaid i amgueddfeydd fod yn sensitif i gyfoeth ac amrywiaeth y gymdeithas y maent yn rhan ohoni ond dylent hefyd gynnig gweledigaeth i ni o gymdeithas fel y gallai fod."

David Anderson,
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru

Lle roedd ganddyn nhw, ein rhagflaenwyr, Brifysgol Genedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol, Timau Chwaraeon Cenedlaethol, a'r cyfan am y tro cyntaf yng Nghymru cyn 1914, yn awr mae gennym eu gwaddol a chreadigaethau newydd: Cynulliad Cenedlaethol, Darlledwyr Cenedlaethol, Cwmnïau Celfyddydau Cenedlaethol, a llywodraethiant ledled Cymru i gynnal mynegiant o Dreftadaeth a Chreadigrwydd. Llwyddodd y Gymru flaenorol honno, yn fodern ac yn ddiwydiannol ennill, drwy Ddeddf Addysg Ganolradd 1889, system addysg uwchradd nodedig a helaeth, sef Ysgol Ramadeg enwog Cymru, a roddodd fath penodol o addysg wrth graidd rhai o'i hanghenion a'i diben ei hun.

Fodd bynnag, ni allai'r system addysg honno byth fodloni gofynion cymdeithas a oedd yn ymrwymedig i degwch i bawb, na gwasanaethu byd ôl-ddiwydiannol gwahanol iawn Cymru ar droad y ganrif hon. Dim ond ein fframwaith llywodraethu diweddar, wedi'i ddatganoli'n sefydliadol, sy'n rhoi'r cyfle i ni fodloni hawliadau Cymru mewn ffyrdd penodol mewn ardaloedd penodol sy'n benodol i ni. Yn yr ystyr hwn, dylai Hawliad Cymru fod yn ddiymwad os bydd Cymru Fydd – y Gymru nad yw'n Gymru eto – i gynnig dyfodol i ni a fydd yn well oherwydd y bydd yn wahanol.

Heddiw rydym yn wynebu cyfres o broblemau cymdeithasol a diwylliannol sy'n gyfuniad o'n

Plant Ysgol Gynradd Hafod yn peintio murlun mewn cartref nyrsio lleol

daearyddiaeth ddarniog a'n hanes toredig. Ac nid oes ffactor economaidd amlwg sy'n gwrthbwyso hyn - o lo a dur, o dun plât a llechi - a all weithredu fel maen prawf cynhenid i dynnu pethau at ei gilydd mewn byd o waith. Gallwn wisgo, yn amrywiol, glogynnau hunaniaeth llwyddiant yn y maes chwaraeon neu natur ieithyddol unigryw ond, fel pobl, nid ydym yn byw mewn un croen. Mae'n amser cydnabod hyn fel y ffordd tuag at Gymru sy'n fwy agored yn ddinesig, ac yn llai cul o ran brand. Mae'r celfyddydau'n dilysu ein hunaniaeth unigryw a'n dynoliaeth gyffredin.

Felly, er mwyn dechrau dal diddordeb a chynnal sylw myfyrwyr ysgol – o'r rhai hynny sy'n ddawnus ac/neu yn freintiedig i'r rhai a all fod yn ddifreintiedig oherwydd eu lleoliad, eu magwraeth neu eu dyhead – oni ddylem fod yn pwysleisio cyfoeth a her yr hyn sydd wedi'i fynegi mewn ffurfiau lleol ac adnabyddus – mewn barddoniaeth, paentiadau, cerflunwaith, pensaernïaeth, ar fideo a ffilm, mewn llenyddiaeth, gyda cherddoriaeth a chân, ar lafar ac mewn comedi, ar lwyfan a chyda dulliau ffisegol – fel bod yr hyn sy'n cael ei gyfleu drwy'r cyfryngau a'r hyn sy'n cael ei gydnabod yn gyffredinol yn cael eu gweld fel rhan o'r gwraidd a'r gangen, nid arwahanrwydd anghyraeddadwy. Byddai'r dull hwn, ar gyfer y celfyddydau, yn gymaint am wybodaeth hanfodol ag am gyfranogiad creadigol oherwydd bod angen i'r meddwl gael ei gynnwys yn gymaint â'r bysedd er mwyn codi'r ysbryd.

Mae'r anawsterau ymarferol sy'n llesteirio gwell darpariaeth o'r celfyddydau mewn addysg yng Nghymru, yn ymarferol, yn ddim ond anawsterau ymarferol ac felly gellir goresgyn yr holl faterion o'r fath – costau trafnidiaeth, mynediad, pellteroedd, partneriaethau, cyfnodau preswyl, uwchsgilio proffesiynol, darparu technoleg ddigidol – drwy'r dulliau ymarferol y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn. Nid yw diben cyffredin yn ein cymunedau cyfoes, mwy gwasgaredig yn hawdd ei fynegi. Nid yw hynny'n ei wneud yn llai angenrheidiol nag o'r blaen.

Yn ein hysgolion, am amser penodol o'r dydd ac am gyfnod o flynyddoedd, mae cymunedau'n dal i ymgasglu at ddibenion cyffredin yr oedd cynulleidfaoedd ehangach o bobl wedi eu creu iddynt hwy eu hunain ar un adeg fel cymunedau drwy eu cymdeithasau gwirfoddol, bandiau pres, corau, capeli, o gymanfa ganu i oratorio, o eisteddfodau i theatrau bach, mewn sefydliadau gweithwyr a neuaddau cerddoriaeth, mewn llyfrgelloedd ac ar feysydd chwarae, a'r cyfan yn chwilio am y diwylliant sy'n gwneud i gymuned fyw. Mae'n anodd, efallai'n amhosibl, canu clodydd gwerthoedd o'r fath, sydd bellach yn cael eu hanwybyddu yn fwy na'u mawrygu, yng nghanol sŵn byd masnachol sydd wedi'i farchnadeiddio. Ond yna, waeth pa mor anodd yr ymddengys, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol meithrin ymdeimlad dwfn o werthoedd cyffredin yn ein hysgolion er mwyn i Gymru ei hun gael dilysrwydd parhaus y tu hwnt i'w daearyddiaeth benodol a'i hanes darfodedig.

Pan ddefnyddiodd William Morris ei ddywediad sy'n parhau'n rhagweledol *'The Education of Desire'* i ddisgrifio'r math o addysg y dylem gynnig i bawb ei goblygiad yw yr oeddem yn cael ein haddysgu i dderbyn y terfynau a osodir gan yr hyn sy'n gwbl angenrheidiol i fyw neu 'ddod i ben', ac rydym yn parhau i gael ein haddysgu felly. Y peth hawsaf felly, mewn byd a reolir gan anghenraid, yw drachtio ar y cof, fel mewn synfyfyrdod a ddaw'n hunllef o ganlyniadau. Dioddefodd Aneurin Bevan gymaint oherwydd ei brifathro pedantig yn ysgol elfennol Sirhywi yn y 1900au fel y bu iddo ddweud nad oedd ei addysg yn fwy na 'ffordd o hyfforddi ci'. Llwyddodd i ddianc, hyd yn oed o'r rheidrwydd cythreulig o waith dan ddaear o'r adeg pan oedd yn 14 oed, i hud cerddoriaeth a rhamant llenyddiaeth. Prin y gallwn ddweud, yn 2013, nad oedd ein breuddwydiwr mwyaf hefyd yn ddyn ymarferol. Ac yn wir y wers glir y tu ôl i ymadrodd Morris ym 1890 yw ein bod, yn aml iawn, yn atal y dyhead sydd gennym mewn breuddwydion gwirioneddol drwy amddifadu pawb o lawnder bywyd creadigol a'r gallu cysylltiedig i fod yn agored i feddwl yn feirniadol, y tu allan i'r blwch.

"Gall unrhyw ffŵl weld bod dau a dau yn gwneud pedwar, ond mae'n gofyn am allu arbennig i ymestyn hynny i bump, neu, yn well byth, i chwech neu saith."

Aneurin Bevan, mewn sgwrs

Felly, er mwyn bod yn fwy parod am fywyd ac yn fwy cyflawn yn ein gallu cyffredinol, rhaid i ni ddysgu, hyd yn oed yn erbyn y ffactorau, yr hyn y dymunwn ei gael o'n haddysg, a pham ei bod yn ddymunol i bob bod dynol, nid dim ond rhai, edrych y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol yn unig.

Yn hyn, meddai Morris, y celfyddydau yw mynegiant dyn o werth bywyd, a hefyd mae eu cynhyrchu'n rhoi gwerth i'w fywyd.

Yr hyn sy'n angenrheidiol o ran ein bodolaeth sy'n ein gyrru i wneud yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud i oroesi, ond mae anghenraid ffug yn amddiffyniad ar gyfer dymuniad a orfodir - yn aflêr ac yn fyrhoedlog, wedi'i farchnata'n fasnachol, yn merwino'n ddeallusol - ond mae dymuniad addysgedig - am welliant ymwybodol, am fywydau mwy cyflawn, am ymwybyddiaeth o ddewis - yn creu cynefin yn y dyfodol lle mae anghenraid yn ildio i ryddid. Cyn y clywir ochenaid flinedig ddealladwy oherwydd y dasg amhosibl o gyrraedd yr uchelfannau hyn - lleihau'r rhethreg ac ati - gadewch i ni gofio bod rhannau sylweddol o gymdeithas Prydain, a Chymru, wedi cyrraedd yr uchelfannau hynny ers tro ac wedi eistedd ar gopaon o'r fath fel arweinwyr. Mae eu 'dymuniad' yn 'ddymuniad addysgedig' er mwyn gwireddu hynny. Maent, ynddynt eu hunain, wedi'u 'boddhau', ac nid yn faterol ddiogel neu gyfforddus yn unig, er bod hynny hefyd yn wir ar y lefel unigol/deuluol yn hytrach na'r lefel gymdeithasol. Nid felly eraill, wrth gwrs, ac er nad diben hyn yw cysylltu'r holl bwyntiau rhwng statws cymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol byddai'n gibddall peidio â chydnabod perthnasedd yr anghysondeb hwn o ran esbonio cyflawniadau addysgol.

Serch hynny, gan roi'r o'r neilltu sut y gallem arddel un math o hawliad ar draul un arall, mae angen i ni fynnu, i'r graddau y gellir ei gyfartalu ar lefel addysgol, y dylai'r hawliad i gael y gorau fod yn un cyffredinol. Neu, i ddyfynnu ymadrodd enwog Raymond Williams (1921-1988) o 1958: 'Mae diwylliant yn gyffredin'. Yna roedd wedi ychwanegu coda, un sydd o reidrwydd wedi'i hepgor ond un a ddylai mewn gwirionedd fod y gri ddilynol i weithredu. Mae'r canlynol yn wir o hyd: 'dyna lle y dylem ddechrau arni'.

Cymerodd ei air ei hun ym 1961, yn *'The Long Revolution'* a dorrodd dir newydd. Yn y llyfr hwnnw, edrychodd ein gŵr deallusol mwyaf arwyddocaol o'r ugeinfed ganrif, bachgen dosbarth gweithiol o'r Pandy a enillodd ysgoloriaeth, y datblygiadau anfesuradwy bron mewn addysg i bawb fel yr oeddent wedi digwydd yn ystod ei oes hyd at y pwynt hwnnw: oedran dysgu ysgol wedi'i godi i 15, hyfforddi athrawon, lleihau maint dosbarthiadau, gwell adeiladau, dyfarnu ysgoloriaethau, a'r manteision unigol a oedd wedi digwydd. A'r cyfan cyn iddo droi at ba mor ddigonol oedd yr enillion a wnaed, a gwnaeth hynny mewn ffordd sy'n parhau i fod yn berthnasol yn 2013:

"Yn ein math ni o gymdeithas, ni allwn alw system addysgol yn ddigonol os bydd yn gadael nifer fawr o bobl gyda llai o wybodaeth gyffredinol a diwylliannol na'r hyn sy'n ofynnol gan ddemocratiaeth gyfranogol a chelfyddydau sy'n dibynnu ar gefnogaeth boblogaidd…bydd yn rhaid i ni feddwl (gan fod pobl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cael anhawster i ddysgu sut i feddwl …) am ehangu ymhellach, wedi'i lywodraethu gan ein hanghenion yn hytrach na'r modelau a etifeddwyd gennym".

Os ydym, felly, yn 2013 yn ceisio cysoni'r man cychwyn o 'Wybodaeth' â'r 'Sgiliau' sy'n ofynnol i estyn tuag at gopa i bawb ei gyrraedd, ni ddylem amau mwyach mai'r celfyddydau mynegiannol – cerddoriaeth, drama, llenyddiaeth, dawns, adrodd straeon, y celfyddydau gweledol a phlastig, llythrennedd graffig a dylunio a thechnoleg – yw'r hyrwyddwyr gwybyddol o ran caffael a datblygu gwybodaeth. Mae'r defnydd a wneir o wybodaeth o'r fath, i'w ganfod yn y creadigrwydd a ddylai lywio'r holl ymagweddau at ddysgu ar draws y disgyblaethau pwnc, ac yn y gwyddorau traddodiadol i'r un graddau ag yn y dyniaethau academaidd.

Os edrychwn ar ddulliau o fesur sgiliau cyfathrebu gwell, cymdeithasoli, hunan-barch, ymwybyddiaeth ddinesig a dyhead – o'r rhai sydd fwyaf o her i'r rhai mwyaf talentog – y celfyddydau sy'n ehangu ac yn gwella deilliannau dysgu yn gyson. Mae addysg, yn bennaf oll, yn ymwneud â'r mwynhad sy'n ysgogi'r dymuniad am wybodaeth sydd wrth wraidd pob dysgu effeithiol.

Y dystiolaeth rydym wedi ei chlywed a'i chael gan athrawon a dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydol, rhaglenwyr celfyddydau cymunedol, addysgwyr a gweinyddwyr, ac eraill, ledled Cymru a thu hwnt, yw'r dystiolaeth rydym yn ei chyflwyno i ategu'r honiadau hyn. Atgynhyrchir y dystiolaeth yn fanwl yn y dogfennau ategol, ac fe'i defnyddir yma, yn y prif adroddiad, fel cyfosodiadau wedi'u hystyried. Ond, ymlaen llaw, efallai fod angen i mi wneud tri phwynt amlwg – yn deillio o ymweliadau personol, gwaith arsylwi a thystio – sy'n lliwio llawer o'r hyn sy'n cael ei bwysleisio wedyn gyda Chymru mewn golwg.

Y cyntaf yw bod rhywfaint o'r addysg gelfyddydol sydd eisoes yn digwydd yn ein hysgolion yng Nghymru, yn ddi-os, yn addysg wych, er ei bod yn aml yn anghyson. Mae llawer o'r gydlyniaeth a'r angerdd sy'n gysylltiedig â'r addysg hon yn deillio o ansawdd eithriadol arweinyddiaeth nifer o benaethiaid a'u cydweithwyr. Dylai'r gwaith hwn gael ei hyrwyddo, ei ddeall, ei ledaenu o'i brif fannau gweithgarwch ar hyn o bryd, a'i ymestyn yn ehangach o'r grwpiau oedran presennol i'n hysgolion uwchradd.

Yn ail, gallai a dylai'r cyfyngiadau, sy'n aml yn hunanosodedig neu wedi'u cyfiawnhau eu hunain, yn yr ysgol uwchradd gael eu llacio i alluogi mwy o waith creadigol, sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau, a gwella'r gwaith hwnnw, drwy'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3, neu o 11 i 14 oed, a all fod yn gyfnod braenar lle yr ymddengys fod

"Fel sail ar gyfer trafodaeth, byddwn yn nodi'r canlynol, fel isafswm…ieithoedd sylfaenol Saesneg a mathemateg... gwybodaeth gyffredinol amdanom ni ein hunain a'n hamgylchedd (bioleg, seicoleg, hanes cymdeithasol, economeg, y gyfraith, daearyddiaeth, gwyddoniaeth)....llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, perfformiad dramatig, tirlun a phensaerniaeth... ymarfer helaeth mewn gweithdrefnau democrataidd (a)… defnydd o'r holl ffynonellau gwybodaeth, barn a dylanwad… (yna) o leiaf un diwylliant arall, gan gynnwys ei iaith, ei hanes, daearyddiaeth, sefydliadau a'r celfyddydau, i'w rhoi yn rhannol drwy ymweliadau a chyfnewid"

Raymond Williams in 1961

disgyblion ac athrawon bron yn aros am ddyfodiad diffiniadau ynglŷn â Chyfnod Allweddol 4. Hyd yn oed wedyn dylai'r disgyblaethau pwnc a gymerir o'r pwynt hwnnw gael cylch gwaith ehangach, a dylai rhai o bynciau'r celfyddydau mynegiannol, ynddynt eu hunain, gael eu cadw ar gael ar gyfer astudiaeth ac ar yr un lefel â'r pynciau y credir eu bod yn fwy academaidd.

Yn drydydd, ac yn tanlinellu ethos Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd dysgu o 5 i 16 oed, dylid cyflwyno llu o brofiadau celfyddydol i fyfyrwyr drwy gydol eu blynyddoedd ysgol, boed yn diddanu neu'n pryfocio neu'n herio, ar draws y gyfres o deithiau maes i ddigwyddiadau, orielau, perfformiadau, sgyrsiau sy'n gwerthfawrogi'n feirniadol, ac ati, gan gynnwys cyfnodau preswyl celfyddydol mewn ysgolion, er mwyn gwneud pob ysgol yng Nghymru yn ysgol sy'n gyfoethog o ran y celfyddydau o ran cyflawniad neu uchelgais.

Beth amser yn ôl, wrth i ddatganoli ymsefydlu fel ffurf newydd ar lywodraeth i Gymru, gellir crynhoi'r dyhead roedd y llywodraeth yn teimlo y dylem ei nodi fel ein huchelgais yn yr ymadrodd: "Cymru: Y Wlad Graff". Yr hyn a gynigir, yma, yw os ydym byth yn mynd i weld y genedl graff honno'n cael ei gwireddu, bydd rhaid i ni feithrin "Cymru: Cenedl y Celfyddydau". Dyna'r diriogaeth go iawn, o safbwynt byd-eang, lle bydd yn rhaid i ni ddatgan hawliad Cymru. Ar y diriogaeth honno mae llawer o wledydd eisoes wedi mynnu mai'r egwyddor greadigol a arweinir gan y celfyddydau mewn

Plant Ysgol Gynradd Hafod yn creu ffenestri lliw

addysg, fydd eu dilysnod, a bydd yr adroddiad hwn yn tanlinellu hynny hefyd. Efallai y bydd ambell uchafbwynt yn helpu i egluro maint yr her a wynebwn a'r cyfle sydd gennym nawr i gymryd cam mawr ymlaen. Ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, ym 1999, daeth Adroddiad Robinson ar gyfer Llywodraeth y DU ar y pryd i'r casgliad canlynol:

"Mae'r adroddiad hwn yn dadlau na all unrhyw system addysg fod yn system o'r radd flaenaf heb roi pwys ar greadigrwydd a'i integreiddio mewn addysgu a dysgu, yn y cwricwlwm, wrth reoli ac arwain, a heb gysylltu hynny â hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o newid diwylliannol ac amrywiaeth."

Roedd troi'r geiriau hynny yn weithredoedd, fel yn y cynlluniau Partneriaeth Creadigol, yn hynod drawiadol lle y digwyddodd, ond bu'n fyrhoedlog ac aeth i'r gwellt. Gallwn weld nad oedd hanfodion Adroddiad Robinson yn gyson wedi llywio'r darpar systemau addysgol 'o'r radd flaenaf' hynny. Nid yw enillion yn sgil cytundeb eang â chynigion Syr Ken Robinson mor amlwg heddiw, ym mrys gwyllt y presennol. Yng ngwres diweddar y ffwrnais gyfoes honno, rydym eisoes wedi cyfaddawdu drwy fodloni ar fesurau a gyfrifwyd ar y fantolen gan y rhai ym maes addysg sy'n 'ticio'r blychau' ar draul ymagwedd fwy cytbwys tuag at ddysgu cyffredinol y gallai buddsoddwr mewn addysg ei chymryd pan fydd risgiau yn cael eu hasesu a chyfrifiad yn cael ei wneud ar gyfer y dyfodol ar sail anghenion cymdeithas yn hytrach nag ar abacws cyfrifydd.

Cafwyd cryn dipyn o fyfyrio yn dilyn Adroddiad Robinson, am fod yr adroddiad, a'i dynged, wedi bod dan y chwyddwydr er 1999. Yn 2012, a hithau'n awdur adroddiad o bwys a gyhoeddwyd yn 2010 ar gyfer Cyngor Ymchwil Addysgol Awstralia, ysgrifennodd yr Athro Robyn Ewing:

"Cyflwynodd adroddiad terfynol Adolygiad o Ysgolion Cynradd Caergrawnt (2009) dan arweiniad Robin Alexander...ganfyddiadau adolygiad annibynnol dros 6 mlynedd o gyflwr a dyfodol y cwricwlwm cynradd yn Lloegr. Er bod yr adolygiad yn nodi enillion sylweddol mewn gwyddoniaeth, dinasyddiaeth yn ogystal â'r ffordd yr ymdrinnir â gwerthoedd a datblygiad personol plant, canfu'r ymchwiliad fod dau ddegawd o agenda safonau gyda phrofion cenedlaethol wedi cyfaddawdu hawl plant ysgolion cynradd i ddull dysgu cytbwys.

Mae ffocws o'r fath wedi golygu bod dysgu ar y cof a chofio ffeithiau syml wedi cael blaenoriaeth dros ddysgu a dealltwriaeth ddofn. Roedd addysg yn y celfyddydau a'r dyniaethau wedi'i gyfyngu ac o ganlyniad wedi'i ddibrisio fel y mathau hynny o ddysgu ym mhob pwnc sy'n gofyn am amser i drafod, datrys problemau ac ymchwilio i syniadau."

Mae'r adroddiad hwn (un Alexander, 2009) yn

"Mae creadigrwydd yn hanfodol i lwyddiant a boddhad pobl ifanc, i hyfywedd ein cymunedau ac i iechyd hirdymor yr economi… rwy'n diffinio creadigrwydd fel y broses o gael syniadau gwreiddiol ag iddynt werth... Ceir amrywiol fythau am greadigrwydd. Un ohonynt yw mai dim ond pobl arbennig sy'n greadigol; un arall yw mai dim ond ymwneud â'r celfyddydau y mae creadigrwydd; ac un arall yw bod a wnelo'r cyfan â 'hunanfynegiant' dilyffethair. Nid oes yr un o'r rhain yn wir. I'r gwrthwyneb, mae gan bawb allu creadigol; mae creadigrwydd yn bosibl ym mha bynnag beth a wnewch, a gall fod angen disgyblaeth fawr a llawer o wahanol sgiliau"

Syr Ken Robinson yn 2013

cadarnhau canfyddiadau astudiaeth gynharach a gynhaliwyd gan Ken Robinson ar gyfer llywodraeth Blair (1999). Yr adeg honno, pwysleisiodd Robinson fod creadigrwydd a'r celfyddydau yr un mor bwysig i'r gwyddorau ac awgrymodd y byddai meithrin creadigrwydd drwy'r celfyddydau'n galluogi myfyrwyr i ddehongli a gwerthfawrogi ystyr gwirioneddol bod yn llythrennog ac yn rhifog yn yr unfed ganrif ar hugain.

Ni allai unrhyw un sydd wedi'i argyhoeddi gan eiriolaeth mor bwerus a byd-eang ar gyfer y celfyddydau mewn addysg fethu â chydnabod hefyd bod goblygiadau o ran adnoddau ynghlwm wrth weithredu celfyddydau mewn addysg yn effeithiol ac yn ystyrlon. Mae'r rhain yn mynd y tu hwnt i gyllido, neu hyd yn oed arian cyfatebol - i gwmpasu hyfforddiant, cyn cael swydd ac yn y swydd, ar gyfer y proffesiwn ac ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol, mewn ysgolion a'r tu allan iddynt – os ydym, yn y weithred o feithrin dychymyg a hwyluso creadigrwydd, yn eu gwneud yn flaenoriaethau yn y cwricwlwm craidd, nid 'ychwanegion' ac 'ôl-ystyriaethau'. Ar y llaw arall, hyd yn oed gyda buddsoddiad amser ac arian o'r fath, mae'r enillion posibl o ran tegwch cymdeithasol, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, adeiladu strwythurau ar gyfer effaith greadigol ar ein heconomi ac yn ein cymdeithas, o ran sicrhau cyfraddau cynnydd ar gyfer y rhai artistig mwyaf talentog yng Nghymru, oll yn anghymesur â'r mewnbwn cymharol fach, gwreiddiol sy'n ofynnol.

I weithredu'r newid sylweddol hwn bydd angen arweiniad dewr gan lunwyr polisïau a galluogwyr polisïau. Mewn gwirionedd, rydym eisoes wedi sefydlu hynny mewn cynifer o ffyrdd, fel y dengys yr adroddiad hwn; ond, yn aml iawn, gall y gefnogaeth fod yn betrusgar lle mae angen i'r ymrwymiad fod yn ddyfal wrth i ni i gyd helpu ein gilydd i ddarganfod a defnyddio'r arferion gorau a'r rhai mwyaf priodol. Ledled Cymru, ym mhob un o'n hysgolion, dylem sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn ymgysylltu'n llawn â'r creadigrwydd a ymgorfforir yn y celfyddydau er mwyn cynnig iddynt addysg sy'n berthnasol i'w dyfodol yng Nghymru mewn byd sy'n wynebu'r dyfodol.

Mae ymwneud presennol llawer o artistiaid a sefydliadau celfyddydol â'n hysgolion, a sut y cânt eu croesawu yno, wedi gwneud argraff dda arnom ac wedi ein calonogi. Ceir ymdeimlad amlwg bod sector y celfyddydau'n awyddus i wneud rhagor eto a hynny'n fwy effeithiol byth. Yr hyn sydd ei angen yn awr ar y ddau bartner – y celfyddydau ac addysg – yw cydnabyddiaeth o arwydd, cyfeiriad clir a, lle y bo angen, y ffyrdd penodol o wneud gwahaniaeth.

Credaf fod yr adroddiad hwn yn rhoi darlun clir o fanteision dysgu o'r fath. Mae gennym athrawon ac artistiaid sydd ag uchelgais i hyrddio Cymru i flaen y gad o ran yr hyn sy'n bygwth (neu'n addo) bod yn drawsnewidiad chwyldroadol o systemau addysgol mewn rhai o wledydd mwy pellweledol y byd. Yn anad dim, ein plant a'n pobl ifanc sy'n gwneud yr hawliad yma i Gymru, un y dylem ei anrhydeddu gyda'u Cymru Fydd yn ein meddwl. O ran eu dyfodol hwy, ni allwn fforddio cael ein gadael ar ôl.

Plant Ysgol Gynradd Hafod yn astudio cerfluniaeth ac arlunio â siarcol

"Mae'r rhannau o addysg yr ydym yn eu galw'n 'ddiwylliannol' yn dweud wrthym am ddyheadau pobl a sut maent yn cyfathrebu; sut maent yn dyfeisio. Mae'r cyfan yn deillio o 'ddymuniad', sy'n galluogi'r dychymyg. Gwyliwch fympwyon plant – ffrwd o chwilfrydedd, risg a dyfeisgarwch; yn profi eu byd, yn darganfod bod rhai 'marciau' yn troi'n ddelweddau a bod eraill yn troi'n llythrennau …

… nid peiriant ar gyfer cynhyrchu artistiaid yw addysg wych yn y celfyddydau, dylai fod yn system arddio i feithrin cyflawniadau amrywiol ac i ddathlu'r hinsawdd y mae'r 'planhigion' yn ei rhannu. Dylai addysg wych ddangos i chi sut i wrando ar y glaw yn gymaint â'ch cyflwyno i Mozart. Mae plentyn sy'n gwybod bod y mwg yn gefnder i'r fricsen yn gymaint o archeolegydd ag y mae o gemegydd ag y mae o nofelydd.

Mae cyfnodau o addysg wirioneddol wych yn rhyddhau'r ynni hwn. Maent yn galluogi, maent yn creu hyder, maent yn dathlu."

Richard Wentworth
Athro Cerflunwaith, y Coleg Celf Brenhinol, 2009-11

3. Tystiolaeth: y safbwynt rhyngwladol

Cyflwyniad

Nod yr adolygiad hwn yw ymchwilio i botensial Cymru i sefydlu partneriaethau mwy effeithiol yn sectorau'r Celfyddydau ac Addysg, a thrafod sut y gellir defnyddio'r celfyddydau'n fwy cynhyrchiol mewn lleoliadau addysg, er mwyn gwella deilliannau addysgol tymor hwy. I fynd ar drywydd y nodau hyn, mae angen i ni ystyried astudiaethau a thystiolaeth ymchwil bresennol.

Nododd tîm yr adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg gyfoeth o ymchwil academaidd o'r DU a ffynonellau rhyngwladol ehangach sydd, yn argyhoeddiadol - ac yn aml yn angerddol - yn ategu'r achos am gynnwys y celfyddydau mewn ymarfer addysgol. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi cyd-destun hanfodol ac mae'n elfen bwysig o ran ategu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Ceir y dadansoddiad llawn yn y dogfennau ategol.

Rôl y celfyddydau o ran gwella llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad

Mewn nifer o achosion, mae ymchwil a ddyfynnwyd yn yr astudiaethau hefyd yn amlygu canfyddiadau mwy penodol sy'n ymwneud â gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd ac yn cyfateb y rhain â chyfranogiad dysgwyr mewn rhai mathau o gelfyddyd. Er enghraifft, ymchwiliodd *Critical Links: Learning in the Arts and Student Academic and Social Development*, (Deasy, 2002) a'r astudiaeth *Can Music Be Used to Teach Reading?* (Butzlaff, 2000), i'r berthynas rhwng hyfforddiant cerdd a pherfformiad darllen. Yng ngeiriau canfyddiad yr astudiaeth: "the meta-analysis of the correlational studies demonstrated a strong and reliable association between music instruction and standardised measures of reading ability". Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd bod y rhain yn flaenoriaethau allweddol i'r agenda addysg yng Nghymru.

At hynny, canfu sawl astudiaeth fod cynnwys y celfyddydau'n helpu i hybu lefelau cyflawniad academaidd pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig – maes arall o bwys i addysg yng Nghymru. Er enghraifft, yn *The Arts and Achievement in At-Risk Youth: Findings from Four Longitudinal Studies* (Catterall et al, 2012), canfuwyd y gall rhaglenni yn yr ysgol neu raglenni allgyrsiol sy'n cynnig cyfranogiad dwfn yn y celfyddydau helpu i leihau'r bwlch cyflawniad rhwng ieuenctid o statws economaidd-gymdeithasol uchel ac isel, ac yn *Champions of Change: The Impact of the Arts on Learning,* Fiske (1999) nodwyd bod y celfyddydau yn helpu i greu cyfle cyfartal o ran addysg i fyfyrwyr difreintiedig.

"Mae fy adolygiad diweddar o ymchwil rhyngwladol a gomisiynwyd gan Gyngor Ymchwil Addysg Awstralia (2010) wedi argymell ei bod yn bwysig ymgorffori'r celfyddydau ym mhob disgyblaeth a maes academaidd fel ffordd o feithrin creadigrwydd a dychymyg ar draws y cwricwlwm. Er bod y celfyddydau yn cynnwys disgyblaethau gwahanol yn eu rhinwedd eu hun, a bod eu mwynhau a'u gwerthfawrogi yn arwain at fanteision cynhenid i'r unigolyn, mae cyfres o adroddiadau ymchwil dros fwy na degawd wedi pwysleisio hefyd bod y myfyrwyr hynny sy'n ymwneud â phrosesau a phrofiadau celfyddydol o ansawdd yn cael graddau gwell a sgorau gwell mewn profiad, eu bod yn llai tebygol o adael yr ysgol yn gynnar, mai anaml y maent yn dweud eu bod yn ddiflas a bod ganddynt fwy o hunangysyniad na'r myfyrwyr hynny sydd wedi'u hamddifadu o brofiadau celfyddydol (e.g. Catterall 2009; Gadden 2008; Deasey 2002; Fiske 1999)."

Yr Athro Robyn Ewing, 2012

Defnyddio'r celfyddydau ar draws y cwricwlwm

O ran argymhellion, daeth rhai themâu cyson i'r amlwg yn yr ymchwil. Mae sawl astudiaeth yn hyrwyddo'n gryf addysg 'gyfoethog o ran y celfyddydau' sy'n defnyddio'r celfyddydau fel dull o gynorthwyo ac ehangu dysgu ym mhob un o'r pynciau academaidd. Yn benodol, cyfeiriodd, *The Arts and Australian Education: Realising Potential,* (Ewing 2010) at amrywiaeth o raglenni celfyddydol integredig ac astudiaethau achos i gefnogi'r eiriolaeth hon, gan ddadlau er mwyn hyrwyddo cynwysoldeb, bod yn rhaid i addysg gelfyddydol gael ei gweld fel elfen graidd o'r cwricwlwm.

Cafwyd cryn ddiddordeb yn adroddiad Ewing 2010 o du gwladwriaethau a llywodraethau ffederal, sector y celfyddydau a'r proffesiwn addysgu yn Awstralia, yn rhannol oherwydd lansiad cwricwlwm cenedlaethol newydd Awstralia. Fodd bynnag, er bod y Polisi Diwylliannol Cenedlaethol diweddar, a'r cyllid a oedd yn gysylltiedig ag ef, wedi creu mwy o botensial am bartneriaethau rhwng y celfyddydau ac addysg, mae argymhellion yr adroddiad yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i fandadu.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos sut y mae menter addysg gelfyddydol benodol wedi'i defnyddio'n llwyddiannus fel dull o gefnogi dyheadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach. Yn achos Singapôr, nododd Report of the Committee on Specialised Arts School (2004) y byddai angen i'r wlad feithrin mentergarwch creadigol ei

Plant Ysgol Gelfyddydol Elfennol Palmview, Traeth Gorllewinol y Palmwydd, Fflorida

"Mae ein dyfodol fel gwlad arloesol yn dibynnu ar sicrhau bod gan bawb fynediad i'r celfyddydau ac i gyfleoedd diwylliannol… Ond mae a wnelo'r cysylltiad rhwng creadigrwydd a masnach â mwy nag ysgogiad economaidd, mae a wnelo hefyd â phwy ydym ni fel pobl. Mae'r Arlywydd a minnau am sicrhau bod gan bob plentyn fynediad i weithiau celf gwych mewn amgueddfeydd. Rydym am iddynt gael mynediad i feirdd a cherddorion gwych mewn theatrau o amgylch y wlad, i addysg gelfyddydol yn eu hysgolion ac yn eu gweithdai cymunedol."

Michelle Obama

phobl a mynd ar drywydd mwy o dalentau a dyheadau amrywiol er mwyn bod yn rhan lawn o'r economi wybodaeth fyd-eang.

Wedi'i sefydlu gan y Weinyddiaeth Gwybodaeth, Cyfathrebu a'r Celfyddydau (MICA) yn 2008, mae gan Ysgol Arbenigol y Celfyddydau yn Singapôr weledigaeth i nodi a meithrin cenedlaethau'r dyfodol o artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol i fod yn arweinwyr ym mhob maes gyda'r nod o feithrin cronfa o dalent greadigol i gryfhau natur gystadleuol tymor hwy'r wlad yn sector y diwydiannau creadigol rhyngwladol. Mae'n cynnig amgylchedd dysgu celfyddydol ac academaidd integredig unigryw lle y gellir gwireddu potensial artistig ac academaidd – a llwybr datblygu penodedig i yrfaoedd tymor hwy yn y diwydiannau creadigol. Y bwriad ar ôl hynny fydd gwneud y celfyddydau mewn addysg yn fwy cyffredin yn y system addysg brif ffrwd i ddatblygu creadigrwydd.

Mae rhywfaint o debygrwydd rhwng yr athroniaeth hon a'r un a fabwysiadwyd yn y Ffindir, sydd hefyd yn cefnogi ymagwedd tymor hir at y celfyddydau mewn addysg drwy'r cwricwla ar gyfer 'Addysg Sylfaenol yn y Celfyddydau'. Yn yr un modd ag y mae Singapôr yn cynnig i fyfyrwyr gwricwlwm sy'n ymrwymedig i ragoriaeth yn y celfyddydau, mae cwricwlwm Addysg Sylfaenol yn y Celfyddydau y Ffindir yn darparu datblygiad cyfannol tebyg drwy gwricwlwm celfyddydol ac academaidd integredig wedi'i gynllunio i gynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial artistig a deallusol. Mae'r nodau tymor hwy i ddysgwyr yr un fath yn fras – datblygu gallu i ddatrys problemau'n greadigol a'r gallu i weithredu mewn cymdeithas sy'n seiliedig ar wybodaeth a rhyngweithio.

Deilliannau gwell i ddysgwyr

Efallai y bydd astudiaethau hydredol, ymhen amser, yn cynhyrchu tystiolaeth fwy sylweddol o'r berthynas rhwng ymwneud â'r celfyddydau a gwell deilliannau i ddysgwyr. Mae astudiaethau megis The Arts and Achievement in At-Risk Youth: Findings from Four Longitudinal Studies (Catterall et al, 2012) eisoes yn dangos

"Mae bardd yn yr ystafell ddosbarth yn caniatáu i gelf ddysgu techneg mewn fflach o lawenydd. Mae'n arwain at ddarllen... Yn y 1970au treuliais dymor fel bardd preswyl yn Ysgol Gyfun Cwmbrân. Gwahoddais R S Thomas i ddod yno i ddarllen ei waith. Yn ddiweddar cyfarfûm â mam efeilliaid a oedd yno ar y pryd. 'Dydyn nhw byth wedi anghofio hynny', meddai. Cafodd un ferch, a oedd yn ferch i ddyn lludw, ei hysbrydoli i astudio Saesneg yng Nghaergrawnt.

Llwyddodd y cynllun Llenorion ar daith i'w dal nhw'n ifanc, mae'n gymharol rhad, mae'n cyrraedd y croestoriad ehangach posibl o'n cynulleidfa, ac mae'n annog ysgolion y gymryd rhan, i feddwl, i wneud y cais, i ddewis yr awdur, i wneud y gwaith dilynol …

Heddiw, mae creadigrwydd, dychymyg a'r celfyddydau mewn ysgolion dan fygythiad i'r graddau nas gwelwyd ei fath o'r blaen. Ein hiaith yw ein hofferyn dynol unigryw. Ni all dim ddigwydd hebddi. Roedd yr hyn a ddechreuodd mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru yn y 1970au yn chwyldro tawel… yn ysbrydoliaeth i filoedd o blant. Gall dim ond un diwrnod arbennig o'r fath yn yr ysgol newid eich bywyd."

Gillian Clarke, National Poet of Wales, 2013

cydberthynas gref rhwng ymwneud parhaus â'r celfyddydau a deilliannau gwell i ddysgwyr. Yn wir, thema gyson yn yr astudiaethau a adolygwyd yw mantais bendant gweithgarwch y celfyddydau i'r dysgwr o ran sgiliau creadigol, hunanhyder, hunanymwybyddiaeth a hunaniaeth a datblygiad personol a rhyngbersonol yn fwy cyffredinol.

Partneriaethau, hyfforddiant a chymorth

Mewn rhai astudiaethau, pwysleisiwyd pwysigrwydd partneriaethau cryf rhwng sefydliadau celfyddydol ac ysgolion. Canfu Fiske (1999) fod partneriaethau wedi'u llunio'n dda rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydol yn gallu cynyddu cyflawniad myfyrwyr a nododd *The Wow Factor: Global Research Compendium on the Impact of the Arts in Education* (Bamford, 2006) fod addysg gelfyddydol o safon yn dueddol o gynnwys partneriaeth gref rhwng yr ysgolion a sefydliadau celfyddydol a chymunedol allanol.

Yn olaf, mae'r ymchwil yn amlygu rhai o'r rhwystrau posibl i ymgysylltiad llwyddiannus rhwng arferion y celfyddydau ac addysg, a'r dysgwyr eu hunain. Yn benodol, mae problemau sy'n ymwneud â chymhelliant, hyder, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr addysg yn cael eu hamlygu mewn nifer o'r astudiaethau. O ran atebion posibl, argymhellodd Fiske (1999) ddefnyddio'r celfyddydau fel cyfrwng i baratoi newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn a datblygu ei aelodau mwy profiadol, ac roedd Bamford (2006) yn argymell yr angen am fwy o hyfforddiant i ddarparwyr ar y rheng flaen yn y gadwyn gyflenwi.

Yr Hwb dan arweiniad Tim Baker
Clwyd Theatr Cymru Theatr ar gyfer Pobl Ifanc yn perfformio'n Ysgol Uwchradd Elfed yn Sir y Fflint. Yn y llun: Claire Barron

4. Tystiolaeth yn nes adref: Prydain ac Iwerddon

Mae ymchwil ac astudiaethau o'r DU ac Iwerddon yn amlygu rôl hanfodol diwylliant a chreadigrwydd o ran darparu addysg gyffredinol fwy cyflawn sy'n datblygu rhinweddau creadigol ac entrepreneuraidd, hyder a setiau sgiliau ehangach yn y dysgwr.

Mae *All Our Futures: Creativity, Culture and Education* (1999) a *the Henley Review of Cultural Education in England* (2012) yn dod i gasgliadau tebyg ac yn dadlau'n gryf bod creadigrwydd, diwylliant a'r celfyddydau'n fwy cyffredinol yn ymyriadau ategol sy'n gwella dysgu. Yr hyn sy'n hollbwysig, fodd bynnag, yw eu bod hefyd yn rhybuddio bod tystiolaeth bod pynciau'r celfyddydau eu hunain yn cael eu gwthio'n gynyddol i'r cyrion a bod angen rhoi proffil a blaenoriaeth cymharol iddynt ochr yn ochr â phynciau academaidd eraill 'â blaenoriaeth uchel'.

All Our Futures: Creativity, Culture and Education

Yn *All Our Futures: Creativity, Culture and Education* (1999), defnyddir y flaenoriaeth a roddir i lythrennedd a rhifedd i ddangos y pwynt:

"Nid ydym yn hyrwyddo addysg greadigol a diwylliannol fe dewisiadau amgen i lythrennedd a rhifedd, ond yn hytrach fel addysg sydd y un mor berthnasol i anghenion y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn cefnogi'r angen am safonau llythrennedd a rhifedd uchel. Gallant hefyd wella galluoedd creadigol, ond yn yr un modd gall addysgu a dysgu creadigol wella llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain yn alluoedd ategol, yn hytrach nag amcanion gwrthgyferbyniol."

Mae All Our Futures yn argymell ymdrechu i sicrhau cydbwysedd yn y cwricwlwm ysgol, dulliau addysgu ac asesu fel ateb posibl i'r cyfyng-gyngor hwn.

Adolygiad Henley

Yn yr un modd mae *Henley Review of Cultural Education in England* (2012), yn argymell bod angen fframwaith clir, rhagnodol o ddisgwyliadau o ran addysg ddiwylliannol ar draws pob un o gyfnodau allweddol y cwricwlwm addysg er mwyn creu'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc sy'n ymwybodol o ddiwylliant ac sy'n llythrennog. Mae Henley'n argymell ymhellach y dylai'r uchelgais hwn gael ei ategu gan fwy o gydweithredu trawsadrannol, gyda strategaeth a chynllun addysg ddiwylliannol newydd yn sail iddo er mwyn goruchwylio'r broses gyflawni.

Yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Henley, ffurfiwyd Grŵp Partneriaeth Addysg Ddiwylliannol genedlaethol i ysgogi dull gweithredu mwy strategol ar bartneriaethau cenedlaethol a argymhellir yn yr adolygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Lloegr, English Heritage, Sefydliad Ffilm Prydain a Chronfa Dreftadaeth y Loteri ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i gysoni gweithgarwch ac adnoddau a sefydlu Partneriaethau Addysg Ddiwylliannol Lleol. Yng Ngorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Prydain 'Addysg Ddiwylliannol: crynodeb o raglenni a chyfleoedd' a ddisgrifiodd ei huchelgais am addysg ddiwylliannol yn Lloegr yn sgil adolygiad Henley. Argymhellodd Henley 'y dylai'r llywodraeth ddatblygu un cynllun cenedlaethol i addysg ddiwylliannol gan ddarparu strategaeth drosfwaol am ei chomisiynu a'i darparu'. Ar y pryd cytunodd Llywodraeth Prydain gan ddweud y datblygai'r fath gynllun. Cydnebydd yr adroddiad newydd 'na all addysg fod yn gyflawn heb wneud y celfyddydau a chreadigrwydd yn ganolog i fywyd plant' gan amlygu a dathlu prosiectau diwylliannol. Ond, wrth ysgrifennu'r adroddiad, nid oes dim arwydd o gynllun cenedlaethol na chyfeiriad ato sydd o bosibl yn awgrymu bod llai o frwdfrydedd ar ran Llywodraeth Prydain i yrru'r agenda hon yn ei blaen.

Siarter y Celfyddydau Mewn Addysg (Iwerddon)

Mae polisïau a strategaethau eraill o bob cwr o Ynysoedd Prydain yn atgyfnerthu'r farn bod systemau addysg sy'n meithrin creadigrwydd yn sail i well canlyniadau cymdeithasol,

diwylliannol ac economaidd. Er enghraifft, mae Siarter y Celfyddydau mewn Addysg yng Ngweriniaeth Iwerddon yn cydnabod bod addysg y celfyddydau'n gwneud cyfraniad pwysig at y nod ehangach o ddatblygu creadigrwydd yn y gymdeithas a'r economi ac mae'n nodi bod gan bresenoldeb (neu ddiffyg presenoldeb) creadigrwydd oblygiadau difrifol o ran lles personol. I ategu'r dyhead hwn, mae'r siarter yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar adrannau'r llywodraeth, asiantaethau, sefydliadau celfyddydol a sefydliadau'r celfyddydau i weithio ar y cyd i ddarparu a hyrwyddo addysg y celfyddydau i blant a phobl ifanc.

Cynllun Gweithredu'r Alban ar gyfer Addysg a'r Celfyddydau, Diwylliant a Chreadigrwydd

Yn wir, thema gyson yn yr ymchwil – ac o'r hyn a gynhaliwyd yn yr Alban yn benodol, yw rôl gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, yn genedlaethol ac yn lleol, o ran cyflawni ymyriadau celfyddydol a diwylliannol llwyddiannus mewn ysgolion. Roedd cyflwyno'r 'Cwricwlwm Rhagoriaeth' yn yr Alban yn 2005-7 yn golygu edrych o'r newydd ar ddiben addysg a rhoddodd ysgogiad newydd i sefydliadau celfyddydol weithio gydag ysgolion. Rhoddodd bwyslais ar waith traws-bortffolio a chwalu rhwystrau'n gysyllteidig â phynciau ac roedd yn rhagflaenu newid o fodel addysgu sy'n 'trosglwyddo gwybodaeth' i un yn seiliedig ar 'wybodaeth a sgiliau'.

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei 'Chynllun Gweithredu ar gyfer Addysg a'r Celfyddydau, Diwylliant a Chreadigrwydd'. Argymhellodd hwn gydweithio agosach rhwng y sectorau addysg a diwylliannol a phwysleisiodd ddatblygu sgiliau creadigol, meithrin gallu darparwyr addysgu i gynorthwyo dysgu ac addysgu creadigol, rhannu gwybodaeth ac arferion da, a'r defnydd o dechnoleg ddigidol. Mae llawer o'r gwaith sy'n codi o'r cynllun yn cael ei lywio gan Creative Scotland ac Education Scotland, ac mae'n cynnwys defnyddio adnoddau presennol mewn ffyrdd doethach, mwy effeithiol.

"Mae tôn benodol o ddelfrydiaeth ddemocrataidd …wedi diflannu bron yn gyfan gwbl o fywyd cyhoeddus Prydain erbyn hyn, rhywbeth sydd, fel cerddoriaeth bur, yn fy nghyffwrdd pryd bynnag y byddaf yn ei glywed…Beth sydd ei angen ar blant ysgol (eto)? Gobaith. Ac, yn anad dim, clywed lleisiau argyhoeddiadol gobaith… yr her…yw sicrhau bod y lleisiau hynny i'w clywed eto, ble bynnag y bônt yn awr."

Syr David Hare, Dramodydd



Plant Ysgol Gynradd Hafod yn creu animeiddiad ag iPadau

Mae 'Rhwydweithiau Dysgu Creadigol' wedi chwarae rhan allweddol o ran cyflawni cynllun yr Alban. Maent yn gymunedau ymarfer sy'n dwyn ynghyd bawb sydd â diddordeb mewn dysgu creadigol i blant a phobl ifanc er mwyn sefydlu partneriaethau newydd a gwella profiadau a chyfleoedd dysgu creadigol. Caiff y gweithgarwch ei gydlynu gan reolwyr y celfyddydau a dysgu sy'n gweithredu fel y 'catalydd ar gyfer gweithredu' ac yn cynorthwyo ysgolion a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a chyflwyno 'cynnig addysg y celfyddydau' sy'n briodol ac yn fforddiadwy.

Yr heriau allweddol

Mae ymchwil y DU hefyd yn amlygu rhai o'r heriau gwirioneddol sy'n wynebu athrawon ac artistiaid o ran darparu ac addysgu'r celfyddydau yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n cynnig atebion megis gwell DPP i athrawon ac artistiaid. Er enghraifft, yn yr Alban, mae llawer o'r 'Rhwydweithiau Dysgu Creadigol' wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu DPP mwy arloesol ac effeithiol ac maent yn gweithio i hyrwyddo 'DPP ar y cyd', lle mae athrawon ac artistiaid yn cydweithio i wella'r ffordd y mae addysg greadigol yn cael ei chyflawni. Mae'r ymagwedd hon yn cydnabod er bod helpu athrawon newydd i 'oresgyn yr ofn' o ran addysgu'r celfyddydau'n broblem fawr o hyd, mae uwchsgilio artistiaid i addysgu pobl ifanc ac ymgysylltu â hwy yr un mor bwysig.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr anawsterau a nodwyd yn ymwneud â hyfforddiant a chymorth proffesiynol, canfu *All Our Futures: Creativity, Culture and Education* (1999):

"Mae athrawon da a llawer o ysgolion sy'n perfformio'n dda eisoes yn gwneud yr hyn a argymhellwn. Rydym am i athrawon gael mwy o ryddid i ddefnyddio eu sgiliau creadigol a phroffesiynol eu hunain. Bydd mwy o ryddid i athrawon yn yr ystafell ddosbarth yn helpu i hyrwyddo addysgu creadigol ac mae hyn yn hanfodol i hyrwyddo dysgu creadigol".

Gweithdy animeiddio Ffotogallery, Ysgol Stanwell, Penarth

"Ysgol gwbl academaidd ydoedd a ni ddysgwyd y celfyddydau yno o gwbl…Cefais fy annog i ddarlunio yn yr ysgol iau (yn y 1930au); ond yn Ysgol Sirol y Porth, fi oedd yr unig un bryd hynny a oedd erioed wedi gwneud Lefel 'O' Celf. Dywedais fy mod yn awyddus i wneud y pwnc…cefais ganiatâd i roi'r gorau i Ladin er mwyn gwneud hynny. Roedden nhw'n credu y dylwn i fod wedi bod yn fathemategydd neu'n wyddonydd, oherwydd ro'n i'n dda iawn gyda'r pynciau hynny…Chefais i ddim ond cefnogaeth gartref lle roedd fy nhad wedi bod yn ddi-waith er 1926. Yn wir, roeddwn yn teimlo fel bod y gymuned gyfan yn fy nghefnogi. Roeddwn i eisiau gwneud lluniau o'r maint ac o bethau y gallent eu rhoi ar y wal a phethau yr oeddent am eu gweld. Gadewais y Chweched dosbarth yn 1946 ar ôl blwyddyn a mynd i Goleg Celf Caerdydd, ac yno ennill Ysgoloriaeth Agored Morgannwg ac ysgoloriaeth y Coleg. Ac yna, ar ôl Gwasanaethu gyda'r Awyrlu yn yr Aifft lle y dysgais Gelf mewn stiwdio agored i'm cyd-filwyr, er nad oedd gennyf Lefel 'A' mewn Celf, ymlaen â fi i'r Coleg Brenhinol yn Llundain. Nid oeddwn yn gymwys i gael grant, felly rhoddodd fy nhaid ei gynilion oes i mi, sef ugain punt. Ei gynilion oes."

Charles Burton, Arlunydd

5. Y Celfyddydau mewn Addysg yng Nghymru: y trefniadau presennol

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa o ran y celfyddydau ac addysg yng Nghymru ar hyn o bryd, mewn ysgolion ac yn fwy cyffredinol. Bydd yr adran hon hefyd yn ystyried rôl Cyngor Celfyddydau Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia addysg. Er mai prif ganolbwynt yr adolygiad hwn yw gwella ansawdd ac amrywiaeth y celfyddydau mewn ysgolion, yn hytrach na'r cwricwlwm celfyddydau ei hun, mae'n angenrheidiol yn gyntaf ddeall gofynion y cwricwlwm addysg presennol o ran addysgu pynciau academaidd ochr yn ochr â'r celfyddydau a thrwy'r celfyddydau. Mae angen i ni hefyd ddeall i ba raddau y mae'r trefniadau presennol ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn ategu gofynion y cwricwlwm.

Y celfyddydau a'r cwricwlwm ysgol

Mae'r cwricwlwm ysgol presennol i ddysgwyr 3-16 oed, a gyflwynwyd yn 2008, wedi'i drefnu'n gyfnodau allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod Sylfaen	3-7
Cyfnod Allweddol 2	7-11
Cyfnod Allweddol 3	11-14
Cyfnod Allweddol 4	14-16, sy'n arwain at gymwysterau TGAU/ lefel 2.

O fis Medi 2013, daw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd yn un o ofynion statudol y cwricwlwm. Ym mis Mai 2013, cyflwynwyd profion llythrennedd a rhifedd i bob plentyn 5-14 oed.

Y Cyfnod Sylfaen

Mae'r cam dysgu cyntaf, y Cyfnod Sylfaen, yn cynnwys plant 3 - 7 oed ac mae ganddo ei gwricwlwm arbennig ei hun. Mae'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru', sy'n fframwaith statudol, yn nodi saith 'Maes Dysgu', gan gynnwys datblygu creadigol - meithrin sgiliau creadigol, mynegiannol ac arsylwadol plant drwy weithgarwch yn y celfyddydau, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symudiad. Ar gyfer pob 'Maes Dysgu,' mae'r rhaglen addysgol yn nodi beth y dylid ei ddysgu i blant. Mae'r deilliannau'n nodi safonau disgwyliedig o ran perfformiad plant ac yn disgrifio cynnydd yn ôl chwe deilliant cyrhaeddiad.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i bob disgybl o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol. Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol, mae rhaglenni astudio'n nodi'r hyn y dylid ei ddysgu i ddisgyblion ac yn diffinio disgwyliadau cynnydd erbyn diwedd y cyfnod allweddol.

Cymraeg, Saesneg, mathemateg, addysg gorfforol a gwyddoniaeth yw pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n statudol hyd ddiwedd CA4. Celf a dylunio, dylunio a thechnoleg, daearyddiaeth, hanes, TGCh, ieithoedd tramor modern a cherddoriaeth yw pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n orfodol hyd ddiwedd CA3 ac yn ddewisol ar ôl hynny. Felly, pynciau'r celfyddydau sy'n rhan o brofiad dysgu pob plentyn nes iddo gyrraedd 14 oed yw celf a dylunio, ysgrifennu creadigol (yn Gymraeg ac yn Saesneg), dawns (drwy Addysg Gorfforol), drama (drwy Gymraeg/Saesneg) a cherddoriaeth.

Mae'r holl bynciau'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, ac i fireinio eu gwaith eu hunain tan iddo gyrraedd y safonau uchaf posibl. Fodd bynnag, mae pynciau'r celfyddydau'n cyfrannu mewn ffordd unigryw at ddatblygu'r sgiliau hyn, yn ogystal ag ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion cymdeithasol a diwylliannol. Yn anad dim, mae pynciau'r celfyddydau'n gofyn am ymatebion llawn dychymyg.

Sgiliau a dysgu trawsgwricwlaidd

Yn ogystal â'r fframwaith dysgu sy'n seiliedig ar bynciau, mae'r cwricwlwm ysgol yn cynnwys sgiliau a meysydd dysgu trawsgwricwlaidd, er enghraifft sgiliau meddwl a chyfathrebu.

"Os na fyddai'r celfyddydau mewn addysg, mae'n annhebygol y byddwn yn dilyn addysg bellach am ei fod yn hwb gwych i'm hyder ac rwy'n cael llawer o foddhad pan fyddaf yn cyrraedd fy llawn botensial."

Angharad (17)

Y 'Cwricwlwm Cymreig' yw un o'r meysydd trawsgwricwlaidd hynny sy'n berthnasol i'r celfyddydau yng Nghymru yn benodol, gan roi cyfle i ddysgwyr ymchwilio i hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth, y celfyddydau ac iaith, o'r Cyfnod Sylfaen i CA3. Dylai dysgwyr 14-19 oed gael cyfle i ymgysylltu'n weithredol â'r broses o ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd yn ei gyfanrwydd, drwy'r uned 'Cymru, Ewrop a'r Byd' ym Magloriaeth Cymru.

Nid oes gofyniad i bynciau'r celfyddydau gael eu hintegreiddio â phynciau eraill. Fodd bynnag, yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11) mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dewis dull dysgu trawsgwricwlaidd a thematig. Er enghraifft, efallai y gellid ymchwilio i bwnc hanes drwy ddefnyddio gweithgarwch celf a drama. Ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yng Nghyfnod Allweddol 3, fel arfer dysgir y pynciau ar wahân. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn dewis llacio'r cwricwlwm rywfaint yng Nghyfnod Allweddol 3 a pharatoi gweithgarwch trawsgwricwlaidd am gyfnod penodol o amser.

Cyfnod Allweddol 4 a chymwysterau 14-19

Yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 mae'n ofyniad statudol bod dysgwyr mewn ysgol uwchradd neu sefydliad addysg bellach yn gallu manteisio ar gwricwlwm lleol. Yn y flwyddyn academaidd 2012-13 roedd hyn yn cynnwys isafswm o 30 o ddewisiadau cwrs ar lefel 2 (h.y. TGAU a chymhwyster cyfatebol) ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a 30 o ddewisiadau cwrs ar lefel 3 (h.y. Safon Uwch a chymhwyster cyfatebol) ar gyfer ôl-16, gyda phob cynnig yn y cwricwlwm yn cynnwys isafswm o 5 pwnc galwedigaethol.

Hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)

Mae'n ofynnol i ddarparwyr HCA gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth hyfforddiant i alluogi hyfforddeion i ddangos eu bod wedi cyrraedd y safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC). Fodd bynnag, yn sgil dyfnder yr hyfforddiant y mae'n rhaid ei gwmpasu drwy gydol y cyrsiau HCA, cyfrifoldeb y darparwyr HCA yw penderfynu sut y byddant yn trefnu eu rhaglenni hyfforddi.

Darperir HCA yng Nghymru gan dair canolfan gydweithredol addysg athrawon: (i) Gogledd a Chanolbarth Cymru - Prifysgolion Aberystwyth a Bangor (Cyrsiau cynradd drwy Brifysgol Bangor); (ii) De-orllewin Cymru - Prifysgol Fetropolitan Abertawe (Ôl-raddedig Cynradd) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Israddedig Cynradd); a (iii) De-ddwyrain Cymru - Prifysgol De Cymru (Israddedig Cynradd) a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd (Ôl-raddedig Cynradd). O ran cyrsiau HCA Cynradd, mae cerddoriaeth, datblygu creadigol a chelf a dylunio'n rhan annatod o Safonau SAC ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Rhwng y blynyddoedd academaidd 2004/05 a 2012/13, mae'r nifer sy'n dilyn cyrsiau HCA sy'n arwain at SAC yng Nghymru wedi lleihau 31%. Llywiwyd y newidiadau hyn gan y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon sy'n rhagfynegi niferoedd yr athrawon a fydd yn ofynnol yn y dyfodol. O ran cyrsiau TAR Celf, Cerddoriaeth a Drama, mae'r niferoedd ar gyfer y tair blynedd academaidd ddiwethaf fel a ganlyn:

Blwyddyn Academaidd	Celf	Cerddoriaeth	Drama
2012/13	47	30	24
2011/12	54	33	25
2010/11	59	33	26

"Mae fy hanes cyfan yn yr ysgol wedi'i nodweddu gan y darnau o gelf a wnes i yno. Dyma yn amlwg oedd fy ffordd i o dyfu, ac ymuno yn y gweithgaredd. Euthum i ysgol uwchradd lle y gallai unrhyw un ddysgu canu offeryn; gallai unrhyw un ymuno â'r tîm hoci, bod yn rhan o ddrama'r ysgol a mynd i'r clwb celf. Er bod y cyfle addysgol hynod gyfoethog hwn yn cael ei gyfeirio ato'n goeglyd (nawr) fel diwylliant sy'n gwobrwyo pawb ac sy'n arwain at gyffredinedd, cymerais ran ym mhob un o'r pethau hyn... a chefais help i ragori mewn (rhai) ohonynt. Roedd hyn yn bosibl drwy anogaeth ac ymroddiad athrawon carismataidd ac ymroddedig iawn. Hefyd, oherwydd bod gan y pynciau hyn statws cyfartal â'r pynciau eraill yn y cwricwlwm, ni theimlais i byth bod dawn yn y celfyddydau (a cherddoriaeth) yn llai o gyflawniad. Roedd fy ffordd i o gymryd rhan yn dderbyniol.

…Os dim ond y breintiedig sy'n cael addysg gelfyddydol ysbrydoledig...bydd celf yn dod yn fynegiant o brofiad cymdeithasol cul."

Elizabeth Price, Turner Prize Winner 2012

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Ac eithrio'r cyllid a weinyddir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar (DPC), darperir cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer DPP drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae hwn wedi'i ddylunio i fod yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac i ysgogi'r tair blaenoriaeth genedlaethol sef gwella safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi plant ar gyrhaeddiad addysgol. Yn 2013-14, roedd y grant yn werth £37.41m (gan gynnwys arian cyfatebol o ychydig dros 25% gan awdurdodau lleol). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn dirprwyo o leiaf 75% o'u dyraniad i ysgolion. Gall ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i gynorthwyo gweithgarwch datblygu proffesiynol.

Mae grant newydd wedi'i neilltuo i gynorthwyo'r drydedd flaenoriaeth, *y Grant Amddifadedd Disgyblion* hefyd ar gael (gyda'i gilydd mae'r cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion werth dros £70m, gan gynnwys arian cyfatebol gan awdurdodau lleol, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14). Rhaid i unrhyw weithgarwch sy'n defnyddio cyllid Grant Effeithiolrwydd Ysgolion gael effaith amlwg ar wella lefelau llythrennedd a rhifedd. Yn yr un modd, dylai unrhyw ddefnydd o Grant Amddifadedd Disgyblion gael effaith fesuradwy ar ymdrechion ysgol i leihau effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o gyllid wedi'i gyfyngu i bynciau penodol.

Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, mae'n debygol y bydd gan HCA a DPP rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella hyder a lefelau cymhwysedd athrawon i'w galluogi i fanteisio'n fwy effeithiol ar y celfyddydau fel dull addysgu ar draws y cwricwlwm.

Rôl yr awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau celfyddydau ac addysg, ac mae

“Roedd astudio celf wedi fy helpu drwy'r cyfnodau anodd yn yr ysgol. Oni bai am y celfyddydau yn yr ysgol, byddwn wedi bod yn ofidus iawn. Mae'n helpu gyda hunaniaeth ac mae'n cynnig rhywbeth gwahanol i wersi – mae'n rhoi'r cyfle i chi fod yn chi eich hun.”

Myfyriwr (18)

ganddynt rôl allweddol o ran cynorthwyo'r celfyddydau mewn addysg ledled Cymru.

Yn 2012, cafodd gwasanaethau gwella ysgolion, a ddarparwyd ar lefel yr awdurdod lleol yn flaenorol, eu haildrefnu o amgylch pedwar gwasanaeth rhanbarthol a rennir. Felly, erbyn hyn mae pedwar consortiwm addysg yng Nghymru sy'n cwmpasu: Gogledd Cymru (Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Ddinbych), De-orllewin a Chanolbarth Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr, Sir Benfro, Powys, Ceredigion), Canol De Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg) a De-ddwyrain Cymru (Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen). Mae ymyriad a chymorth i ysgolion bellach yn cael eu darparu gan arweinwyr systemau sy'n gweithio i godi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles. Nid oes darpariaeth arbenigol ar gyfer y celfyddydau ar lefel y consortia addysg.

Mae gwasanaethau'r celfyddydau'n amrywio'n sylweddol o ardal i ardal oherwydd erys cymorth i'r celfyddydau'n fater dewisol i awdurdodau lleol unigol. Fel arfer, mae gwasanaethau celfyddydol awdurdodau lleol yn cwmpasu rhai neu'r cyfan o'r canlynol:

- Lleoliadau celfyddydol, megis theatrau a neuaddau cyngerdd.
- Cymorth i wyliau, digwyddiadau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol.
- Staff canolog, e.e. swyddogion datblygu'r celfyddydau a chymorth gweinyddol.
- Grantiau i sefydliadau ac unigolion celfyddydol lleol.
- Gwasanaethau cerddoriaeth peripatetig (offerynnau a hyfforddiant cerdd).

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o leiaf un 'swyddog datblygu'r celfyddydau', neu swydd â theitl tebyg. Lle y maent yn bodoli, mae'r aelodau hyn o staff yn chwarae rhan bwysig fel eiriolwyr a broceriaid dros y celfyddydau mewn gwasanaethau addysg yn eu hawdurdod. Mae hyn fel arfer yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ac arweiniad i ysgolion a hwyluso cyfleoedd i ddysgwyr yn y celfyddydau drwy wneud cysylltiadau ag artistiaid a sefydliadau celfyddydol.
- Cydgysylltu prosiectau cwricwlaidd ac allgyrsiol mewn ysgolion.
- Trefnu llwybrau datblygu i ddysgwyr ac ysgogi gwelliannau o ran ansawdd profiadau dysgu.
- Cymorth uniongyrchol i ysgolion, gan gynnwys darparu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd i athrawon, gwella sgiliau llythrennedd drwy'r celfyddydau, cynorthwyo dysgwyr abl a thalentog a helpu ysgolion i godi arian i gefnogi prosiectau'r celfyddydau.
- Cyngor ar yrfaoedd, gan gynnwys darparu cysylltiadau rhwng y sector addysg a'r diwydiannau creadigol a chyngor ar lwybrau o'r ysgol i addysg bellach/uwch ar gyfer cael gyrfa yn y diwydiant creadigol.

Lle y maent yn bodoli, mae 'Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau' yn chwarae rôl bwysig iawn o ran cysylltu ysgolion a sefydliadau celfyddydol. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae eu rôl yn cynnwys amrywiaeth eang o ddyletswyddau yn ychwanegol at y rhai a amlinellir uchod, h.y. nid ydynt yn arbenigwyr ym maes addysg.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am wasanaethau cerddoriaeth i ysgolion, a ariennir gan y Grant Cymorth Refeniw heb ei neilltuo a dderbynnir gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oes isafswm gofynnol o ran cyllido a darparu gwasanaethau cerdd o'r fath.

Rhwystrau i ddarparu gwasanaethau celfyddydau awdurdodau lleol

Ar hyn o bryd nid oes disgwyliad statudol sy'n

amlinellu beth yn union y dylai llywodraeth leol fod yn ei wneud i ddatblygu a darparu gwasanaethau celfyddydol. Gall lefelau ymrwymiad i'r celfyddydau hefyd amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol ac adlewyrchir hyn yn y gwahaniaethau o ran nifer y swyddi, maint y gyllideb a chwmpas y gwaith. Felly mae darparu a chyflwyno'r celfyddydau yn anghyson ledled Cymru ac mae cyfleoedd i ddysgwyr yn amrywio ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Mae rhai rhaglenni addysgol yn safonol ledled Cymru, a darperir llawer o brosiectau mewn partneriaeth â sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol neu sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth. Fodd bynnag nid oes strategaeth gyffredinol sy'n amlinellu'n glir pwy y dylai swyddogion celfyddydau awdurdodau lleol fod yn gweithio gyda hwy.

Effaith hyn yw anghysondeb o ran ymagwedd a blaenoriaethau ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Er enghraifft, yng Nghonwy, mae swyddogion datblygu'r celfyddydau'n gweithio'n bennaf ar weithgarwch cymunedol ac allgyrsiol, tra yn sir y Fflint mae'r ffocws yn fwy ar y cwricwlwm a phrosiectau mewn ysgolion. Yn yr un modd, ceir gwahaniaethau o ran y dull o ymgysylltu ag ysgolion, gyda rhai'n cysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion, ac eraill yn gweithio drwy gyrff eraill, megis ClymuCelf, Links, neu Bartneriaethau Celfyddydol Rhanbarthol.

Yn ogystal â ffactorau megis pwysau ar adnoddau ariannol, yn ymarferol gall darparu gwasanaethau celfyddydol llwyddiannus hefyd ddibynnu ar unigolion. Er enghraifft, mae swyddogion datblygu'r celfyddydau'n tueddu i weithio mwy gydag athrawon sydd â chefndir cryf yn y celfyddydau, neu'r rhai sy'n llawn cymhelliant i ymgysylltu â'r celfyddydau. At hynny, mewn awdurdodau lleol mae ymrwymiad i'r celfyddydau'n aml yn dibynnu ar arweinyddiaeth a chymorth gan aelodau allweddol megis cyfarwyddwyr addysg ac mae hyn yn anochel yn amrywio o awdurdod i awdurdod.

"Mae ein sefydliadau celfyddydol yn ei chael yn gynyddol anodd darbwyllo ysgolion i gymryd eu gwaith a'r rhesymau a roddir amlaf, ac eithrio cost, yw diffyg amser a'r ffaith 'nad ydynt yn flaenoriaeth'. Y tu hwnt i bynciau ffurfiol y cwricwlwm, mae'r celfyddydau'n aml yn cael eu gweld fel pethau nad ydynt yn hanfodol, yn ychwanegiad neu'n foethusrwydd. Yn arwyddocaol, mae'r pwyslais presennol, ac angenrheidiol, ar lythrennedd a rhifedd yn culhau canolbwynt ysgolion ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn arfer creadigol a all ynddo'i hun helpu i godi'r safonau hyn.

...Nid ydym yn awgrymu bod camgymeriadau wedi'u gwneud yn y gorffennol o ran y celfyddydau mewn ysgolion, ond mae'n bosibl ein bod wedi osgoi cymryd y cam dewr a chadarn a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n pobl ifanc, ac o bosibl i economi Cymru yn y dyfodol.

Adolygiad Cyngor Celfyddydau Cymru, 2013

Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sefydliadau sy'n cael cyllid ganddo

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am gyllido a datblygu'r Celfyddydau yng Nghymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gefnogi ei rhaglen lywodraethu. Gellir rhannu'r gweithgareddau a gyllidir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn dri phrif gategori:

- Gwaith a gynhyrchir ac a ddarperir gan sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw.
- Prosiectau a gynorthwyir drwy gynlluniau a gyllidir gan y loteri.
- Rhaglenni datblygu a reolir ac a dargedir yn uniongyrchol.

Astudiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru o weithgarwch addysg y Sefydliadau sy'n cael Cyllid Refeniw ganddo

Mewn ymateb i gais Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad y Celfyddydau mewn Addysg am ddarlun manylach o'r gwaith celfyddydol mewn addysg a gynhaliwyd gan y 72 o sefydliadau celfyddydol sy'n cael cyllid refeniw yng Nghymru, cynhaliodd Cyngor Celfyddydau Cymru astudiaeth o'r gweithgarwch hwnnw a lluniodd adroddiad Cefnogi Creadigrwydd: Adroddiad ar Fapio Gweithgarwch a Wneir gan Sefydliadau sy'n cael Cyllid Refeniw (gweler y dogfennau ategol). Archwiliodd y gwaith hwn yr amrywiaeth llawn o waith sy'n cael ei wneud gyda phobl ifanc, gan gynnwys:

- Gwaith gydag ysgolion.
- Gwaith gyda cholegau a phrifysgolion.
- Cynnyrch a sioeau proffesiynol sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd ifanc.
- Ffyrdd i bobl ifanc berfformio ac arddangos gwaith mewn lleoliadau proffesiynol.
- Gweithgareddau cyfranogol (gwaith wedi'i dargedu a sesiynau cyffredinol).
- Gweithgareddau hyfforddi, gan gynnwys profiad gwaith.
- Ysgolion haf, gwyliau i bobl ifanc, fforymau pobl ifanc ac adnoddau dysgu.

Y nod oedd cyrraedd sefyllfa waelodlin i ddeall yn well y materion yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae canlyniadau'r astudiaeth yn hanfodol o ran gweld y darlun cyffredinol o statws presennol ymarfer addysg gelfyddydol yng Nghymru. Mae'r penawdau canlynol yn rhoi crynodeb o gwmpas ac effaith y gweithgarwch a gynhelir gan y Sefydliadau sy'n cael Cyllid Refeniw a arolygwyd o fis Medi 2011 i fis Awst 2012. O'r 72 o Sefydliadau sy'n cael Cyllid Refeniw a arolygwyd:

- Roedd gweithgarwch Sefydliadau sy'n cael Cyllid Refeniw mewn ysgolion yn gyfwerth â 440 o brosiectau a 2,482 o weithgareddau ar wahân yn ystod y flwyddyn academaidd 2011-12.
- Roedd 66 (neu 91.6%) yn gweithio gydag ysgolion neu ar eu rhan; 6 Sefydliad sy'n cael Cyllid Refeniw (8.3%) nad oeddent yn gwneud hyn;
- Rhyngddynt, roedd y Sefydliadau sy'n cael Cyllid Refeniw yn gweithio gyda 1,086 o ysgolion yng Nghymru.
- Roedd 123,210 o ddisgyblion yn cymryd rhan, h.y. 26.2% o'r holl blant oedran ysgol yng Nghymru.
- O'r holl weithgareddau ar wahân, roedd 33% yn allgyrsiol a 67% o fewn y cwricwlwm.
- Roedd 73% o'r ymgysylltu ag ysgolion cynradd, 23% gydag ysgolion uwchradd, 3% gydag ysgolion arbennig ac 1% gyda myfyrwyr chweched dosbarth. Ar gyfer ysgolion arbennig, mae'r ffigur yn cynrychioli ymgysylltu ag 88% o'r holl ysgolion arbennig yng Nghymru.
- Roedd 1,365 o weithgareddau (55%) am ddim; talodd yr ysgolion am 1,112 o weithgareddau (45%).

Casgliadau allweddol o astudiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru

Amlyga astudiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru fod creadigrwydd yn un o'r sgiliau craidd y dylid cynorthwyo pob disgybl yng Nghymru i'w datblygu. Mae'n argymell meithrin creadigrwydd ymhlith pobl ifanc fel ffordd o adeiladu gweithlu medrus, arloesol a chreadigol. Awgryma y gallai'r celfyddydau chwarae rôl hanfodol yn hyn o beth drwy ymgorffori dysgu creadigol mewn cymwysterau a'r cwricwlwm addysg – a rhoi'r amrywiaeth o sgiliau a chymwyseddau sydd eu hangen ar bobl ifanc i ddod o hyd i le o fewn unrhyw ddiwydiant.

Fodd bynnag, mae'r rhwystrau sy'n atal manteisio ar yr hyn sydd eisoes ar gael yn bryder allweddol. Er enghraifft, er bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn hyfedr iawn o ran pledio achos y celfyddydau, maent yn ei chael yn gynyddol anodd darbwyllo ysgolion i weithio gyda hwy. Ac eithrio cost, mae'r rhesymau a nodwyd ar gyfer hyn yn cynnwys diffyg amser a chanfyddiad bod y celfyddydau'n flaenoriaeth isel, nad ydynt yn hanfodol, neu eu bod yn foethusrwydd.

Yn arwyddocaol, awgryma adroddiad Cyngor Celfyddydau Cymru fod y pwyslais presennol, ac angenrheidiol iawn, ar lythrennedd a rhifedd yn culhau canolbwynt ysgolion ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn ymarfer creadigol a all - yn eironig - arwain at safonau gwell yn y meysydd hyn. Mae hyn yn atgyfnerthu'r egwyddor a sefydlwyd yn

Gweithdy cymunedol i ysgolion yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth (Llun: Cath Sherrell)

gynharach yn yr adroddiad, sef y dylai addysgu yn y celfyddydau a thrwy'r celfyddydau gael ei weld fel galluogwr i wella safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn hytrach nag amharu ar y blaenoriaethau academaidd hynny. Felly mae angen ail-bwysleisio gwerth y celfyddydau gydag ysgolion ac, yn bwysig, mae angen cynorthwyo ysgolion i ddatblygu a darparu dulliau mwy dychmygus o ymgymryd â gweithgarwch creadigol trawsgwricwlaidd.

Yn unol â'r negeseuon a ddeilliodd o broses ymgynghori'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen (gweler pennod 6) nododd astudiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru wendidau cyfathrebu, yn benodol diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r 'cynnig o ran y celfyddydau' fel rhwystr arall i ddefnydd a darparu effeithiol. Cynigiwyd 'porth ar y we' i ddarparu gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau sydd ar gael gan artistiaid a sefydliadau celfyddydol fel ateb ymarferol i'r cyfyng-gyngor hwn a fyddai'n cael ei groesawu gan ysgolion ac artistiaid.

Cydnabu'r adroddiad hefyd rôl hanfodol athrawon, a chynigiwyd nifer o opsiynau i gynorthwyo eu datblygiad proffesiynol. Ystyriwyd bod mentora gan gymheiriaid, wedi'i ddarparu gan gydweithwyr mwy profiadol, yn ddull gwerthfawr ac effeithiol o rannu gwybodaeth a meithrin hyder. Gan adeiladu ar hyn, awgryma'r adroddiad y gellid penodi athrawon â hanes cryf o gyflawni arfer arloesol yn y celfyddydau mewn ysgolion yn 'Hyrwyddwyr y Celfyddydau', a'u cynorthwyo i rannu eu gwybodaeth a'u sgiliau â chydweithwyr a chydag ysgolion eraill. Yna gellid cryfhau'r sgiliau hyn ymhellach drwy secondiadau i weithio gydag artistiaid proffesiynol a chwmnïau celfyddydol.

6. Trosolwg: themâu ymgynghori allweddol

Y 'cyntaf' yng Nghymru

Yr adolygiad hwn yw'r cyntaf i edrych yn fanwl ar y rhyngberthynas rhwng sectorau'r celfyddydau a'r sectorau addysg yng Nghymru. Yn absenoldeb unrhyw ymchwil yng Nghymru ar thema'r celfyddydau mewn addysg, daeth yn amlwg ar y cychwyn bod bwlch sylweddol yn bodoli o ran ein dealltwriaeth o dirwedd bresennol y celfyddydau mewn addysg yng Nghymru.

Cynhaliodd yr arolygiaeth ysgolion, Estyn, ei hadolygiad cynhwysfawr diwethaf o addysgu pynciau'r celfyddydau yng Nghymru yn 2004, pan gyhoeddodd *Y Celfyddydau mewn Ysgolion: Safonau ac Ansawdd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3*. Fodd bynnag, mae ei gyhoeddiad diweddar *Arfer Effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion* (2012) yn amlygu effaith gadarnhaol y celfyddydau ar ddysgwyr:

"Mae ysgolion effeithiol yn trefnu gwibdeithiau i leoedd a digwyddiadau na fyddai dysgwyr difreintiedig efallai'n mynd iddynt fel arall, fel amgueddfeydd, a pherfformiadau cerddorfaol a theatrig. Mae llawer o'r ysgolion llwyddiannus hyn yn gwahodd amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol, gan gynnwys arlunwyr, beirdd ac awduron, i wella profiadau dysgu'r dysgwyr. Mae'r profiadau hyn yn gwella hunan-barch dysgwyr drwy ddatblygu eu gallu i fynegi eu syniadau a'u teimladau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau academaidd dysgwyr."

Roedd y datganiad hwn yn seiliedig ar ymweliadau ag ysgolion, craffu ar ddata ac adroddiadau arolygu. Dewiswyd yr ysgolion ar gyfer yr arolwg drwy ddadansoddi data perfformiad ysgol a chraffu ar dystiolaeth arolygu. Fodd bynnag, nid yw hyn ynddo'i hun yn dystiolaeth ddigonol o effaith tymor hwy celfyddydau o ran deilliannau addysgol gwell.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o holiaduron yr adolygiad (gweler y dogfennau ategol) yn awgrymu bod ysgolion yn amrywio'n sylweddol o ran eu defnydd o'r celfyddydau yn y cwricwlwm a'r tu allan iddo. Mae rhai'n gweithio'n llwyddiannus iawn mewn partneriaeth ag artistiaid a sefydliadau celfyddydol lleol a chenedlaethol, ac mae gan eraill gryn le i wneud mwy o waith i fanteisio'n effeithiol ar y celfyddydau. Dangosir hyn yn astudiaeth fapio Cyngor Celfyddydau Cymru (gweler y dogfennau ategol).

Er mwyn adeiladu darlun mwy cywir a chynhwysfawr, cynhaliodd tîm adolygu'r Celfyddydau mewn Addysg ymgynghoriad manwl ledled Cymru. Roedd hwn yn cynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb ag ymarferwyr yn y celfyddydau ac addysg, a chyda dysgwyr. Cyflwynir y dystiolaeth lawn a gasglwyd drwy'r ymarfer hwn yn y dogfennau ategol.

Rhoddir crynodeb o brif gasgliadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n codi o'r ymarferion ymgynghori amrywiol, isod. Yna mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i wneud amrywiaeth o argymhellion a allai, os cânt eu gweithredu, gynorthwyo i integreiddio'r celfyddydau a chreadigrwydd yn fwy effeithiol i ymarfer addysgol ac, yn y tymor hwy, well deilliannau addysgol.

Barn dysgwyr – plant a phobl ifanc

Rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Mawrth 2013, ymgynghorwyd â 471 o blant a phobl ifanc fel rhan o'r adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 5 a 19 oed o 42 o ysgolion, colegau a sefydliadau. Rhoddodd y canfyddiadau gipolwg unigryw ar bwnc y celfyddydau a chreadigrwydd mewn addysg o safbwynt y rhai yr effeithir yn uniongyrchol arnynt – y bobl ifanc eu hunain. Roedd y bobl ifanc yn falch iawn bod rhywun yn ymgynghori â hwy. Meddai un unigolyn 17 oed, "Dydyn ni byth yn cael y cyfle i roi ein barn ar y pwnc." Gellir gweld adroddiad llawn yr ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc yn y dogfennau ategol; fodd bynnag, dyma bedair o'r negeseuon allweddol:

- Cydnabu'r bobl ifanc eu bod wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol yn yr ysgol, ond wrth iddynt fynd yn hŷn roedd y cyfleoedd hyn wedi lleihau, oni bai iddynt ddewis pynciau'r celfyddydau. Roedd llawer yn difaru hyn.

- Nododd y rhan fwyaf o bobl ifanc eu bod yn teimlo bod y celfyddydau'n bwysig a'u bod wedi profi canlyniadau cadarnhaol yn deillio o'u cyfranogiad yn y celfyddydau. Roedd y cyfraniad y gallai'r celfyddydau ei wneud i godi hyder yn thema gyson, yn enwedig ymhlith y grwpiau hŷn, a deimlai fod y celfyddydau wedi eu cynorthwyo i newid eu bywydau er gwell a hyd yn oed anelu at addysg golegol.

- Credai'r mwyafrif llethol y gallai'r celfyddydau addysgu pethau nad oedd yn bosibl i bynciau eraill eu haddysgu, a chynnig ffyrdd eraill o ddysgu a gwybodaeth ehangach a dyfnach am bynciau.

- Cydnabu'r bobl ifanc y cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud i'w hiechyd a'u lles, a phŵer y celfyddydau i ysgogi yn ogystal â'u gwerth cymdeithasol. Nododd y rhan fwyaf eu bod yn dymuno parhau â'u gweithgareddau celfyddydol yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Dehongliad ysgolion o bolisi cwricwlwm Llywodraeth Cymru

Nododd yr adborth a gafwyd gan ysgolion drwy holiaduron, cyfarfodydd o amgylch y bwrdd ac ymweliadau ag ysgolion fod llawer o'r farn nad yw'r hinsawdd gyffredinol ar gyfer y celfyddydau mewn ysgolion yn gadarnhaol iawn. Priodolodd rhai hyn i'r ffaith bod athrawon yn cael eu 'llwytho â chyfarwyddebau eraill', yn enwedig yn yr uwchradd. Roedd canfyddiad mai gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd oedd yr ysgogwyr allweddol i bopeth y mae ysgolion yn ei wneud. Os yw sefydliadau celfyddydol yn cynnig gweithgareddau sy'n amlwg yn ategu'r nodau hyn, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion yn llawer mwy tebygol o ymgysylltu â hwy. Fodd bynnag, dywedir bod amserlenni'n tynhau, a nododd llawer bod lleihad yn yr amser cyswllt cyffredinol ar gyfer pynciau'r celfyddydau.

Mae cyfyngiadau ariannol yn cael effaith fawr, yn enwedig ar ymweliadau ysgolion â sefydliadau'r celfyddydau a digwyddiadau'r celfyddydau ond hefyd ar yr achosion o sefydliadau celfyddydol yn mynd i ysgolion. Ond nid costau yw'r unig broblem. Nodwyd amrywiant sylweddol o ran ymwybyddiaeth o 'arlwy' cyffredinol y celfyddydau. Ymddengys fod rhai ysgolion yn llawer mwy ymwybodol o ba wasanaethau sydd ar gael nag eraill. Yn yr un modd, roedd llawer o athrawon yn teimlo'n ansicr ynghylch pwy i fynd ato ynghylch darpariaeth gelfyddydol, neu sut i wneud hyn.

Er bod y cwricwlwm presennol (2008) yn seiliedig ar sgiliau ac, yn ddamcaniaethol, yn ddigon hyblyg i ganiatáu am ddull addysgu sy'n 'gyfoethog o ran y celfyddydau', nid oedd y rhan fwyaf o athrawon a holwyd yn teimlo'n ddigon medrus nad yn hyderus i wneud hyn.

Teimlai rhai cyfranogwyr y gallai symud i 'gwricwlwm integredig y celfyddydau' drawsnewid datblygu sgiliau a chyflawniad addysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai symudiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol cael newid diwylliant radical gan wleidyddion, addysgwyr ac athrawon. Cydnabyddir nad yw symud i'r sefyllfa hon drwy gyflawni popeth ar unwaith yn realistig, ond mae rhai'n dal i deimlo y gellid cyflawni'r newid yn raddol, dros gyfnod o 5-10 mlynedd dyweder.

"Mae'n ein helpu ni i reoli gwrthdaro a chyda gwaith tîm. Roeddem yn arfer dadlau llawer ond rydym wedi dysgu ffyrdd eraill heblaw am ddadlau'… 'Mae'n wych. Roeddwn wedi dwlu ar gerddoriaeth erioed ond nid oeddwn wedi breuddwydio am wneud fy ngwaith fy hun. Daeth yn bosibilrwydd. Roedd yn ddigon i'm sbarduno."

Aelodau o'r Ysgol Roc

Gweithdy ffilm addysgiadol fel rhan o raglen *Ffilmiau yng Nghwm Afan*, Asiantaeth Ffilm Cymru

Roedd barn bod y cwricwlwm presennol yn darparu cyfleoedd cyfyngedig iawn yn unig ar gyfer rhai ffurfiau ar gelfyddyd, er enghraifft dawns a chelf a dylunio, a bod hyn yn dileu 'camau' hanfodol ac yn atal cynnydd i bobl ifanc talentog.

Ansawdd a 'lle' addysg gelfyddydol mewn ysgolion

O ran y celfyddydau a chreadigrwydd, roedd canfyddiad bod y system yn wan ar y cyfan. Teimlai rhai fod dull gweithredu Estyn yn canolbwyntio'n ormodol ar ddata a deilliannau ar gyfer llythrennedd a rhifedd, gan arwain at wthio creadigrwydd a'r celfyddydau i'r cyrion. Nid oes darlun clir a gwrthrychol o ran pa mor dda yw'r ddarpariaeth gelfyddydol bresennol, oherwydd prin yw'r asesiad manwl o hyn o dan y gyfundrefn arolygu bresennol.

Yn anecdotaidd, ystyriwyd bod rhywfaint o'r ddarpariaeth gelfyddydol yn rhagorol. Fodd bynnag, roedd y cyfranwyr yn dueddol o briodoli hyn i ymrwymiad yr athrawon dan sylw a'u brwdfrydedd am y celfyddydau. Teimlai rhai ein bod yn dibynnu llawer gormod ar yr ewyllys da hwn gan ddadlau, lle mae'r ddarpariaeth yn dda, nad yw hynny'n adlewyrchiad o bolisi na'r cwricwlwm ac yn sicr nid yw'n adlewyrchiad o'r gyfundrefn arolygu.

Barn gyson oedd bod penaethiaid yn noddwyr hanfodol, felly gall ansawdd addysg y celfyddydau mewn ysgolion fod yn ddibynnol iawn ar a yw'r pennaeth yn gefnogol i'r celfyddydau. Mynegwyd y farn, gan fod y rhan fwyaf o benaethiaid yn canolbwyntio ar wella llythrennedd a rhifedd, y gall y celfyddydau ddioddef am nad oes canfyddiad eu bod yn cael yr un flaenoriaeth.

Roedd barn bod ysgolion gwledig o dan anfantais benodol oherwydd bod ganddynt fel arfer dimau bach o staff ac, mewn ysgolion uwchradd, yn aml un aelod o staff yn unig fesul pob un o bynciau'r celfyddydau. O dan yr amgylchiadau hyn, os bydd un o athrawon y celfyddydau'n mynd â grŵp o blant allan am ddiwrnod i ymweld ag orielau neu theatrau, mae eraill felly'n colli eu gwersi celfyddydol. Mae hyn cael ei waethygu gan faterion mynediad mewn lleoliadau gwledig, megis costau teithio uwch a chysylltiadau band eang arafach.

Ysgolion sy'n gweithio gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol

Mae'r dystiolaeth o ymarfer mapio Cyngor Celfyddydau Cymru ac o sesiynau ymgynghori'r Celfyddydau mewn Addysg yn nodi bod cryn dipyn o weithio rhagorol mewn partneriaeth yn digwydd eisoes. Hwylusir llawer o hyn drwy Sefydliadau sy'n Cael Cyllid Refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru ond ceir hefyd amrywiaeth o waith da a gyllidir gan awdurdodau lleol.

Teimlwyd bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n dod i ysgolion yn bwysig dros ben o ran ennyn diddordeb pobl ifanc ac atgyfnerthu'r broses o gyflwyno pynciau'r celfyddydau o ddydd i ddydd. Mewn rhai ysgolion prin yw'r cysylltiadau hyn, ac mae rhai athrawon nad ydynt yn gwybod am y gweithgarwch hwn nac yn ymwneud ag ef. Cafwyd hyd yn oed honiad bod rhai athrawon o'r farn bod sefydliad celfyddydol yn dod i'w hysgol yn gyfle i gael 'gwers rydd'. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn y rhan fwyaf o achosion bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn cydweithio'n agos iawn ag athrawon, o ran y gwaith cynllunio a'r gwaith dilynol. Nodwyd bod yr angen am wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ac yswiriant yn ffactorau o bwys a oedd yn atal y cydweithio hwn, yn enwedig i artistiaid unigol. Roedd yna hefyd gred gref ym manteision ymweliadau oddi ar y safle, er enghraifft â theatrau ac orielau; ac mae ymweliadau o'r fath yn aml yn ysbrydoli plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae costau cynyddol, yn enwedig trafnidiaeth, yn rhwystr cynyddol sy'n atal mynediad i'r celfyddydau y tu allan i'r ysgol.

Fel y gellid disgwyl o bosibl, pwysleisiodd sefydliadau celfyddydol yr angen am gyllid parhaus i gefnogi eu gwaith addysgol. Mae llawer wedi cael profiad o'r broblem hirdymor sy'n gysylltiedig â chyllid prosiect lle y gall rhaglen lwyddiannus yn y celfyddydau ddiflannu, ar ôl i gyllid prosiect ddod i ben. Mae

ysgolion ac artistiaid o'r farn mai cost darpariaeth yw'r rhwystr mwyaf sylweddol i gyfranogi, gyda 93 y cant o ysgolion a 76 y cant o artistiaid yn pwysleisio hyn yn eu hymateb i holiadur yr ymgynghoriad.

Teimlwyd hefyd bod diflaniad arbenigwyr celfyddydol mewn awdurdodau lleol hefyd wedi lleihau'n sylweddol y pwyslais ar y celfyddydau mewn rhai ysgolion. Awgrymodd rhai bod y ffaith bod awdurdodau lleol wedi tynnu cyllid yn ôl wedi'u dehongli fel arwydd nad yw'r celfyddydau'n bwysig iawn mewn gwirionedd.

Ffyrdd y gall awdurdodau lleol gynorthwyo gydag addysgu'r celfyddydau mewn ysgolion

Cyfarfu tîm yr adolygiad â nifer o swyddogion datblygu'r celfyddydau awdurdodau lleol i glywed eu barn am yr hyn roeddent yn ei deimlo sydd ei angen er mwyn creu hinsawdd lle mae pob ysgol yn cefnogi'r celfyddydau. Roedd eu barn yn cynnwys:

- Canllawiau clir a/neu gyfarwyddeb gan y Llywodraeth yn nodi'r hyn y dylai awdurdodau lleol ei wneud i ddatblygu a darparu gwasanaethau celfyddydol.
- Mwy o bwyslais ar y celfyddydau a datblygu creadigol yn y cwricwlwm.
- Mwy o gymhellion i werthfawrogi a blaenoriaethu'r celfyddydau, er enghraifft drwy gynllun Nod Celfyddydau i Gymru.
- Cefnogaeth i lywodraethwyr ysgolion i chwarae rôl gryfach o ran annog ymgysylltiad â'r celfyddydau.
- Llywodraeth Cymru i gydgysylltu ei gwaith ar y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, i hybu gwell cysylltiadau rhwng ysgolion a'r sector creadigol.
- Cyngor Celfyddydau Cymru i annog mwy o ymgysylltiad â'r agenda addysg gan sefydliadau celfyddydol, a sicrhau eu bod yn cynnwys athrawon yn llawn yn y gwaith hwnnw.

Er mwyn eu cynorthwyo i weithio'n fwy effeithiol i ddarparu gwasanaethau'r celfyddydau mewn addysg, argymhellwyd y canlynol hefyd gan swyddogion datblygu'r celfyddydau:

- Hyfforddiant effeithiol i swyddogion datblygu'r celfyddydau weithio mewn addysg, er enghraifft, drwy'r corff proffesiynol ar gyfer y celfyddydau, Arts Development UK.
- Mwy o ran i swyddogion datblygu'r celfyddydau awdurdodau lleol mewn DPP ar gyfer y celfyddydau, oherwydd mae barn bod y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn anghyson ac yn ad hoc.

Barn ar bwysigrwydd y celfyddydau

Ar y cyfan, roedd cred gref bod y celfyddydau yn cael effaith ar blant o ran datblygu eu hyder a'u gallu i gyfathrebu a all, yn ei dro, wella cymhelliant, perfformiad ac ymgysylltiad â meysydd pwnc eraill a helpu i leihau absenoliaeth. Yn arbennig, roedd y cyfranwyr o'r farn bod y celfyddydau'n ddull allweddol o alluogi hunanfynegiant a meithrin hunan-barch ymhlith 'cyflawnwyr isel'. Mae'n arwyddocaol bod 99 y cant o'r ysgolion a ymatebodd i holiadur yr ymgynghoriad o'r farn bod cyfranogiad yn y celfyddydau wedi gwella ymgysylltiad dysgwyr. Yn yr un modd, teimlai 98 y cant a 99 y cant o ysgolion fod y celfyddydau'n datblygu lles emosiynol a sgiliau rhyngbersonol yn y drefn honno, ac roedd yr holl artistiaid o'r farn bod y celfyddydau'n datblygu'r sgiliau hyn i ryw raddau.

Ystyriwyd hefyd bod y celfyddydau'n arbennig o bwerus a pherthnasol i ddatblygu pobl ifanc ag anableddau corfforol a dysgu ac ymgysylltu â hwy. Cafwyd peth cefnogaeth hefyd i'r farn y gall sgiliau iaith gael eu gwella drwy ddod i gysylltiad â'r celfyddydau. Fodd bynnag, derbynnir bod y newidiadau hyn yn cymryd amser a bod angen cefnogaeth barhaus gan benaethiaid.

Awgrymodd holiadur yr ymgynghoriad yn gryf fod cyfranogiad y dysgwyr yn y celfyddydau yn

helpu i leihau effaith tlodi ac anfantais. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion gan ysgolion ac artistiaid yn gadarnhaol ar y pwynt hwn, gydag 87 y cant o ysgolion a 91 y cant o artistiaid yn ateb naill ai 'llawer iawn' neu 'i ryw raddau'. Yn arwyddocaol, mae hyn yn awgrymu y gallai'r celfyddydau fod yn ffactor pwysig o ran cyfrannu at leihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn addysg ymhlith y rhai o gefndir difreintiedig.

Awgrymodd canlyniadau'r ymgynghoriad hefyd fod cryn botensial i'r celfyddydau gefnogi gwell deilliannau addysgol mewn llythrennedd a rhifedd, ond yn enwedig yn achos llythrennedd, gyda 95 y cant o ysgolion ac 81 y cant o artistiaid yn ymateb i holiadur yr ymgynghoriad gan gytuno bod y celfyddydau'n cefnogi llythrennedd mewn ysgolion. Yn wir, credai 67 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur ysgolion y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r celfyddydau i gynorthwyo llythrennedd.

Ystyriwyd bod trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn gyfnod allweddol pan fydd yn hawdd lladd brwdfrydedd dros y celfyddydau. Nodwyd bod hon yn broblem benodol ymysg bechgyn, a all weithiau goleddu'r syniad nad yw'r celfyddydau'n 'cŵl' nac yn bethau gwrywaidd. Fodd bynnag, teimlai rhai fod y broblem hefyd yn codi am nad yw rhai ysgolion uwchradd yn rhoi digon o sylw i bynciau'r celfyddydau ac yn enwedig i ddawns a drama. At hynny, ystyriwyd bod dirywiad y celfyddydau mewn ysgolion gwladol yn gwrthgyferbynnu'n llwyr ag ysgolion preifat, sydd ar y cyfan yn cymryd y celfyddydau yn fwy o ddifrif. Roedd llawer o'r farn bod hwn yn un rheswm pam mae ysgolion preifat yn dueddol o gynhyrchu pobl ifanc sydd mor hunanhyderus.

Chwedlau Cewri Cymru, prosiect clwstwr ysgolion cynradd sir y Fflint gyda'r artist preswyl, Luned Rhys Parri (Llun: Barry Hamilton)

Mae'r celfyddydau'n gyfrwng pwysig i newid canfyddiadau pobl. Mae'r ymgynghoriad a'r ymchwil ryngwladol yn awgrymu'n gryf bod gan y celfyddydau rôl hanfodol o ran helpu plant anabl a'r rhai ag anghenion ychwanegol i weld eu hunain yn wahanol ac ail-werthuso eu sgiliau a'u galluoedd.

Mae'r materion sy'n ymwneud â hygyrchedd yn cynnwys nid yn unig mynediad ffisegol ond hefyd hyfforddi a pharatoi tiwtoriaid, er enghraifft cynnwys hyfforddiant ar gydraddoldeb i bobl anabl. Yn hollbwysig, rhaid i hygyrchedd hefyd adlewyrchu'r angen i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu hatal rhag manteisio ar y celfyddydau am nad ydynt yn gallu talu. Mae angen i sefydliadau celfyddydol gynllunio'n fwy strategol i sicrhau bod eu gwaith a'u gwasanaethau'n gwbl hygyrch. Os na chaiff hyn ei ystyried o'r cychwyn, mae risg gwirioneddol y bydd plant anabl yn cael eu heithrio.

Barn ar 'erydiad' pynciau'r celfyddydau

Dywedwyd bod ysgolion ag adrannau celf, cerddoriaeth neu ddrama lle ceir dim ond un aelod o staff bellach yn 'syndod o gyffredin', a theimlwyd bod y sefyllfa hon yn anffodus, ac yn anghynaliadwy yn y pen draw. Cafwyd hefyd awgrymiadau bod celf a dylunio'n cael ei wthio i'r cyrion fel pwnc penodol, neu mewn rhai achosion yn cael ei golli'n gyfan gwbl. Yn yr un modd, teimlai rhai nad yw drama'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol fel pwnc, yn enwedig ei rôl wrth feithrin hyder a sgiliau cyfathrebu pobl ifanc a gwella eu datblygiad emosiynol.

Ceir pryderon bod y celfyddydau, mewn llawer o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn gynyddol yn weithgarwch allgyrsiol – 'rhywbeth rydych chi'n ei wneud mewn clybiau celf, mewn cerddorfeydd neu glybiau drama'. Er bod gweithgareddau o'r fath yn cael eu gwerthfawrogi a'u gweld fel rhai sy'n bwysig i ddatblygiad plant, yn aml mae'n rhaid i'r disgyblion ddewis y pynciau hyn ac mae angen ymrwymiad sylweddol y tu allan i oriau gan athrawon. Yn wir, mae rhai ysgolion yn defnyddio arian cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) i gyflogi arbenigwyr celfyddydau allanol yn hytrach na'i wario ar ddarpariaeth gyflenwi.

Yn achos cerddoriaeth, nodwyd prinder athrawon cymwys. Hefyd, mae llawer o ysgolion bellach yn codi ffi am wersi offerynnol neu'n rhoi cymhorthdal i wasanaeth peripatetig. Yn ymarferol, rhaid i ysgolion addasu a theilwra eu hatebion eu hunain i gadw darpariaeth fforddiadwy ym maes tiwtora offerynnau cerddorol – neu beryglu torri'r gwasanaeth.

Cafwyd awgrymiadau gan rai bod plant weithiau'n cael cyngor i beidio â dewis pynciau'r celfyddydau ar gyfer TGAU a Safon Uwch. Mewn ymateb i hynny, teimlai llawer bod angen ymgyrch ar y cyd i herio'r canfyddiad bod pynciau celfyddydol yn 'ddewisiadau hawdd' nad oes iddynt sylwedd na hygrededd academaidd.

Arweinyddiaeth: ymrwymiad i addysg greadigol

Pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr yr angen am gymorth gwleidyddol, ac am arwydd clir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â phwysigrwydd y celfyddydau mewn addysg, gan ddadlau bod 'angen newid y meddylfryd presennol'. I rai cyfranogwyr, roedd cysylltiad cryf rhwng hyn a'r egwyddor o arweinyddiaeth gref 'o'r brig'.

Galwodd nifer o gyfranogwyr am ddull mwy strategol o gydgysylltu partneriaethau cenedlaethol drwy fabwysiadu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau ac addysg greadigol. Byddai hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban a Lloegr, lle mae'r llywodraeth a phartneriaid eraill wedi datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Ddiwylliannol. Mae'r ddau gynllun yn amlinellu ymrwymiadau'r priod lywodraethau, ac yn esbonio sut a phryd y cânt eu cyflawni.

Roedd yr angen i ysgolion, awdurdodau addysg, sefydliadau celfyddydol, Llywodraeth Cymru ac eraill fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig a chyson tuag at y celfyddydau mewn addysg yn thema gyson. Yn arbennig, pwysleisiodd y cyfranwyr bwysigrwydd sicrhau cefnogaeth i'r newid gan randdeiliaid eraill megis Cyfarwyddwyr Addysg, Cyngor Addysgu

Cyffredinol Cymru, Cymwysterau Cymru, Datblygu Sgiliau, a chan y sectorau addysg bellach ac addysg uwch.

Darbwyllo penaethiaid

Roedd cefnogaeth gref o ran canolbwyntio'n benodol ar ddarbwyllo ac ennyn brwdfrydedd penaethiaid, sy'n cael eu gweld fel noddwyr a dylanwadwyr allweddol. Roedd syniadau ar sut i gyflawni hyn yn cynnwys sefydlu digwyddiadau rhwydweithio yn gynnar gyda'r nos i benaethiaid, athrawon celf, sefydliadau celfyddydol a gwleidyddion lleol (yn debyg i'r 'Creative Conversations' llwyddiannus a gynhelir gan Gyngor Dinas Caeredin bob dau fis).

Yn ôl llawer o gyfranwyr, neges allweddol yr oedd angen ei hatgyfnerthu a'i chyfleu i benaethiaid yw nad yw'r celfyddydau a chreadigrwydd ar y naill law a llythrennedd, rhifedd a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar y llall yn amcanion croes i'w gilydd. Yn hytrach, ceir tystiolaeth argyhoeddiadol sy'n dangos bod defnyddio'r celfyddydau a chreadigrwydd wrth addysgu'n cael effaith ategol ac yn cefnogi'r agenda hon.

Roedd rhai'n teimlo y gallai fod yn werthfawr cynnal 'Wythnos Creadigrwydd Cymreig' flynyddol, lle y byddai pob ysgol yn cael ei hannog i gymryd rhan. Fodd bynnag, roedd llawer yn credu y byddai penaethiaid ond yn teimlo'n hyderus ynghylch llacio'r cwricwlwm a chymryd mwy o risgiau os ceir arweiniad cenedlaethol clir a chymeradwyaeth gref gan Weinidogion.

"Mae'r celfyddydau ym mhobman ac mae'n rhan fawr o'n bywydau. Heb gelfyddydau bydden ni i gyd yn bobl gyntefig."

Plentyn 9 oed

Hyfforddiant

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol mai prin yw'r sylw a roddir i DPP ar gyfer y celfyddydau ar hyn o bryd, a hynny am amrywiaeth o resymau. Mae llawer o sefydliadau'r celfyddydau'n dweud ei bod yn anodd darbwyllo ysgolion i gefnogi DPP sy'n ymwneud â'r celfyddydau; nododd sawl un eu bod yn awyddus i helpu, ond nad yw eu hysgolion lleol yn gallu cyllido'r math hwn o weithgarwch, neu ei fod yn rhywbeth y rhoddir blaenoriaeth isel iddo.

Teimlai rhai bod angen dysgu o fentrau DPP llwyddiannus a gweithredu ar hyn, er enghraifft y cyrsiau a gynigir gan Arts Work Cymru, a'r rhaglenni 'Watch This Space' ac 'Enquire' i athrawon ac addysgwyr y celfyddydau ac orielau yn Lloegr. Roedd canfyddiad hefyd bod cynlluniau 'artistiaid preswyl' yn ffordd dda o gyflwyno DPP anffurfiol i athrawon y celfyddydau.

Creu newid 'o'r bôn i'r brig'

Er gwaethaf y teimladau cryf ynghylch arweinyddiaeth wleidyddol, roedd consensws nad cyfrifoldeb y gwleidyddion yn unig yw sicrhau newid. Mae cyfranogwyr am weld mwy o drafodaeth gyhoeddus a chyhoeddusrwydd ynghylch effaith a phwysigrwydd y celfyddydau a chytunwyd yn gyffredinol bod angen i sector y celfyddydau a'r sector addysg wneud mwy i hybu gwerth addysg gelfyddydol. Yn benodol, nododd y cyfranwyr yr angen i'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch effaith ymyriadau celfyddydol ar ddeilliannau gael ei lledaenu'n ehangach ac yn well, gan gynnwys rôl y celfyddydau o ran helpu i wella llythrennedd a rhifedd a chyflawniad disgyblion yn fwy cyffredinol.

7. Canfyddiadau: dadansoddiad ac argymhellion

Cynllun Cenedlaethol ar gyfer dysgu creadigol

Mae angen datganiad clir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau ac amlygu pwysigrwydd y celfyddydau mewn addysg. Ochr yn ochr â'r datganiad hwn dylid mabwysiadu cynllun cenedlaethol ar gyfer dysgu creadigol, a fyddai'n amlinellu ymrwymiadau'r Llywodraeth, ac yn egluro sut a phryd y byddant yn cael eu cyflawni.

Byddai'r cynllun hefyd yn pennu ystod o gamau i ysgolion, awdurdodau a chonsortia addysg, Cyngor Celfyddydau Cymru, sefydliadau celfyddydol a chyrff diwylliannol eraill, wedi'u hanelu at sicrhau a chynnal dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a chyson ar y celfyddydau mewn addysg.

Dylai'r datganiad – a'r cynllun cenedlaethol – bwysleisio'r ffyrdd ymarferol y mae dull addysgu creadigol sy'n cynnwys cyfoeth o gelfyddydau yn helpu i wella llythrennedd a rhifedd. Dylai hefyd amlygu'r ffyrdd y gall y celfyddydau helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad.

Argymhellion

- **Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn ffurfiol y rôl ganolog y mae'n ei rhagweld ar gyfer addysg gelfyddydol yn ysgolion Cymru drwy ymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel yn y celfyddydau a mynediad i'r celfyddydau.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo defnyddio'r celfyddydau i helpu i wella rhifedd a llythrennedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.**

Y cwricwlwm: pwysigrwydd creadigrwydd

Wrth i'r adroddiad hwn gael ei baratoi, roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygu Cwricwlwm 2008. Mae hyn yn gyfle pwysig o roi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau creadigol ar draws y cwricwlwm, fel y gwnaeth y 'Cwricwlwm Rhagoriaeth' yn yr Alban. Yno, mae creadigrwydd yn un o bedwar prif faes y cwricwlwm, ac yn thema sylfaenol y mae'n rhaid ei datblygu ar draws y cwricwlwm cyfan. Credwn y dylai'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru dalu sylw at hyn, a rhoi mwy o ffocws i feithrin sgiliau creadigol.

Mae angen cydnabod yr angen i ymgorffori creadigrwydd a'r celfyddydau drwy'r amserlen gyfan a'i 'ysgrifennu' yn y cwricwlwm. Yn ogystal dylid rhoi cydnabyddiaeth fwy penodol i sut y mae'r celfyddydau'n 'greiddiol' i'r Cwricwlwm Cymreig.

Argymhellion

- **Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cwricwlwm presennol i gynnwys creadigrwydd, ochr yn ochr â rhifedd a llythrennedd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc ac mewn addysg gynradd ac uwchradd; at hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried bod addysg sy'n gyfoethog yn y celfyddydau yn rhan greiddiol o brofiad ysgol gyfan pob disgybl ac, ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, dylai sicrhau profiad eang o'r celfyddydau y tu allan i'r ysgol yn ogystal â rhyngweithio ag artistiaid proffesiynol yn yr amgylchedd ysgol.**

Cymorth i athrawon: HCA a DPP

Datgela'r Adolygiad yr angen dybryd i fynd i'r afael ag annigonolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer y celfyddydau. Mae ymbaratoi athrawon o ddechrau eu gyrfaoedd i oresgyn yr 'ofn' yn hanfodol - yn arbennig mewn ysgolion cynradd. Rhaid i'r rhan fwyaf o athrawon ysgolion cynradd addysgu'r celfyddydau, ond prin yw'r hyfforddiant ffurfiol y maent wedi'i gael ynghylch sut i wneud hynny. Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddi athrawon i ymgysylltu â disgyblion drwy sicrhau bod

gwersi'n gyffrous ac yn ysbrydoledig. Dylem, fan leiaf, sicrhau bod yr HCA a roddir i athrawon gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn coleddu ac yn ymgorffori dull creadigol o addysgu a dysgu.

Hefyd mae'n amlwg bod angen gwella swm ac ansawdd DPP sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. O gofio'r symudiad tuag at gonsortia addysg rhanbarthol, gall mynd i'r afael â hyn ar sail ranbarthol fod yn fwy effeithiol a fforddiadwy. Dylid ystyried DPP sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau fel ffordd o wella safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae angen hefyd mynd i'r afael â DPP ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol, o gofio bod gan artistiaid, fel athrawon, anghenion hyfforddi penodol. Dylai unrhyw gynigio i fynd i'r afael â hyn gael eu hystyried yng nghyd-destun y cynllun cenedlaethol ar gyfer dysgu creadigol. Yn yr un modd, mae angen i lawer o ysgolion ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut y gall y celfyddydau gefnogi eu dulliau addysgu. Mae materion yn ymwneud â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r ddau sector.

Argymhellion

- **Dylai'r holl hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a ddarperir gan sefydliadau AU yng Nghymru sicrhau bod y fethodoleg addysgu creadigol yn 'greiddiol' i ymarfer addysgol.**

- **Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru weithio gyda Grŵp o ymarferwyr addysg profiadol i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau.**

  Dylai hyn fynd i'r afael ag anghenion athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau, ac ategu'r blaenoriaethau cenedlaethol o wella safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Ymweliad ysgolion â *Lure* gan Helen Sear yn Oriel Davies, y Drenewydd

Cymorth i athrawon: arbenigwyr, mentoriaid a chydnabyddiaeth

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae colli arbenigwyr celfyddydol mewn awdurdodau lleol wedi cyfrannu at roi llai o bwyslais ar y celfyddydau mewn llawer o ysgolion yng Nghymru. Prin iawn yw'r arbenigwyr erbyn hyn. Mae gennym brinder arbenigedd gwirioneddol ar sut i gefnogi'r celfyddydau mewn ysgolion, a sut i helpu sefydliadau celfyddydol i greu'r cysylltiadau cywir a gwella eu harlwy. Er mwyn adfywio addysgu'r celfyddydau mewn modd creadigol mewn ysgolion dylai Llywodraeth Cymru, y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, a Chyngor Celfyddydau Cymru gydweithio i nodi, datblygu a chynnal system o 'hyrwyddwyr celfyddydau lleol' - athrawon sy'n brofiadol yn y celfyddydau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol a fyddai'n rhoi cyngor ac yn cyflwyno arbenigedd, syniadau a chymorth i glwstwr o ysgolion eraill yn eu hardal leol. Dylid adlewyrchu hyn yn y cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu creadigol.

Byddai trefniadau mentora a 'dosbarthiadau meistr' i athrawon eraill yn werthfawr iawn. Gallai'r dull hwn gynnwys hyrwyddo arferion gorau, arddangos ysgolion â record lwyddiannus o waith creadigol a chreu cysylltiadau a chyfleoedd mentora gydag ysgolion eraill. Gallai darparu cymorth o'r fath gynnwys, er enghraifft, y cwmnïau celfyddydol cenedlaethol a 'hyrwyddwyr celfyddydau' y cyfeirir atynt uchod.

Yn ogystal mae angen cydnabyddiaeth a chynlluniau gwobrwyo i annog rhagor o weithgaredd celfyddydol o safon uwch mewn ysgolion. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn, dylai llywodraeth Cymru gefnogi creu gwobr, i athrawon unigol, i gydnabod rhagoriaeth mewn addysgu creadigol.

Dylid gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatblygu a chyflwyno cynllun 'Nod Celfyddydau Cymru'. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i werthuso, cryfhau a dathlu eu darpariaeth gelfyddydol a diwylliannol. Byddai'n rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol i ysgolion sy'n dangos rhagoriaeth o ran darpariaeth gelfyddydol a diwylliannol - a dangos bod yr ysgol yn gwerthfawrogi'r celfyddydau a diwylliant. Gellir cyhoeddi'r gwobrau hyn mewn digwyddiad 'Gwobrau Addysg Greadigol' blynyddol ar gyfer Cymru gyfan er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd addysg greadigol.

Argymhellion

- **Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi:**
  - **Meithrin 'hyrwyddwyr celfyddydau' yn y cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu creadigol**
  - **Gwobrau Celfyddydau Cymru a/neu fedalau i athrawon unigol**
- **Dylid cynnwys yng nghylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru yr angen i weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia addysg i flaenoriaethu ystod o fentrau penodol i gefnogi a datblygu addysgu creadigol, gan gynnwys:**
  - **Tystysgrifau Nod Celfyddydau Cymru**
  - **Mentora athrawon drwy ddefnyddio ymarferwyr y celfyddydau a sefydliadau celfyddydol**
  - **Gweithio gyda llywodraeth leol i nodi, datblygu a chynnal system o 'hyrwyddwyr celfyddydau' mewn ysgolion**

Ysgolion a'r Celfyddydau'n cydweithio

Roedd pawb yr ymgynghorwyd â hwy, gan gynnwys pobl ifanc, athrawon, ymarferwyr yn y celfyddydau - yn teimlo bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn mynd i mewn i ysgolion yn hollbwysig i ysgogi diddordeb pobl ifanc, ac i atgyfnerthu'r gwaith o gyflwyno pynciau celfyddydol o ddydd i ddydd. Roeddent

hefyd yn teimlo bod pobl ifanc yn cael manteision ac ysbrydoliaeth sylweddol yn sgil ymweld â theatrau, orielau ac arddangosfeydd. Mae'r Adolygiad hwn wedi dangos bod llawer o waith rhagorol yn digwydd rhwng ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydol, ond bod lle hefyd i wneud llawer mwy.

Yn anffodus, mae costau cynyddol a chyfyngiadau ar gyllidebau yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gweithgaredd hwn. Yn benodol, mae angen dybryd i ddod o hyd i atebion ymarferol i broblemau'n ymwneud â chludiant a chostau athrawon cyflenwi ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle. Dylid ymchwilio i ystod o atebion posibl, gan gynnwys neilltuo cyllidebau, cymhorthdal i helpu i dalu costau mynd i weld perfformiadau, orielau neu arddangosfeydd, a phrisiau gostyngol ar docynnau. Gall fod angen dyrannu cymorth o'r fath ar sail blaenoriaeth yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt, i sicrhau bod y cymorth yn cael ei dargedu at y rhai sydd ei angen fwyaf.

Rhaid mynd i'r afael hefyd â diffyg ymwybyddiaeth o'r 'arlwy celfyddydol'. Mae rhai ysgolion yn gwybod llawer mwy am yr hyn sydd ar gael yn y sector celfyddydol nag eraill. Nid yw rhai athrawon yn gwybod gyda phwy y dylent gysylltu. Yn yr un modd, mae rhai sefydliadau celfyddydol yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag ysgolion penodol. Yn y gorffennol, roedd cynghorwyr celfyddydau awdurdodau lleol yn pontio'r bwlch hwn, ond mae hyn bellach yn dirywio.

Un ateb fyddai creu 'porth' ar y we, yn debyg i'r porth creadigrwydd ('Creativity Portal') yn yr Alban (http://creativityportal.org.uk). Byddai adnodd o'r fath yn cynnig ffordd well i ysgolion a sefydliadau celfyddydol gysylltu â'i gilydd, dangos yr 'arlwy' celfyddydol cyffredinol, bod yn gartref i adnoddau addysgu a dysgu, a helpu ysgolion i amserlennu gweithgareddau celfyddydol yn fwy effeithiol. Byddai sicrwydd ansawdd yn ystyriaeth allweddol, gan y byddai angen i athrawon fod yn sicr bod yr artist neu'r sefydliad yn darparu gwasanaeth o safon. Gallai'r llwyfan dysgu digidol Hwb https://hwb.wales.gov.uk, a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, gael ei ehangu i gynnwys porth o'r fath. Wedi'i greu i annog a chynorthwyo athrawon i rannu ymarfer ac adnoddau digidol, bydd Hwb yn cyrraedd pob ysgol yng Nghymru.

Argymhelliad

- **Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod Porth Addysg Creadigol yn cael ei ddatblygu, fel elfen ychwanegol, integredig o 'Hwb', Llwyfan Dysgu Digidol Cymru gyfan.**

Rhwydweithiau dysgu creadigol

Mae angen creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer dialog a phartneriaeth rhwng ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydol, a chymunedau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r consortia addysg fod yn rhagweithiol o ran annog sefydliadau celfyddydol, artistiaid, athrawon a phenaethiaid i gyfathrebu a chydweithio. Er enghraifft, gallai lleoliadau celfyddydol drefnu nosweithiau i athrawon, i ganolbwyntio ar ddangos i benaethiaid ac athrawon sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mewn amrywiol ffyrdd i gefnogi blaenoriaethau addysgol fel datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae angen i ysgolion a sefydliadau celfyddydol gydweithio i ddarparu mwy o dystiolaeth o safon uwch o'r deilliannau a gyflawnir drwy eu gwaith celfyddydau mewn addysg ar y cyd. Gellid cyflawni hyn drwy wella eu dulliau gwerthuso, datblygu astudiaethau achos mwy soffistigedig a chofnodi deilliannau'n fwy effeithiol. Mae angen hefyd gwneud mwy i rannu arferion gorau.

Mae'n bwysig nad yw dialog o'r fath a rhannu gwybodaeth fel hyn yn edrych yn rhy gul ar y celfyddydau a/neu ar greadigrwydd. O ran datblygu'r gwaith hwn, bydd yn bwysig cynnwys sefydliadau diwylliannol eraill sy'n gallu cefnogi'r agenda dysgu creadigol - gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, a chyrff diwylliannol eraill.

Argymhelliad

- **Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yng nghylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru yr angen i weithio gyda'i gleientiaid refeniw a sefydliadau diwylliannol eraill i sefydlu 'Rhwydweithiau Dysgu Creadigol' i annog sefydliadau celfyddydol, artistiaid, rhieni ac addysgwyr i gyfenwid syniadau a gwybodaeth, ac i gydweithio â chymunedau dysgu proffesiynol i wella safonau dysgu creadigol mewn ysgolion.**

  Dylai'r rhwydweithiau hyn adlewyrchu'r pedwar consortia rhanbarthol (a darparu gwybodaeth iddynt).

Meithrin talent ifanc

Datgelodd yr Adolygiad nad yw Cymru yn cynnig yr holl 'gamau ar yr ysgol' sy'n angenrheidiol i fanteisio ar frwdfrydedd a datblygu talentau, ac i agor y llwybrau hanfodol tuag at ddysgu ehangach a chyfleoedd gyrfa ar gyfer rhai o'r celfyddydau. Rhaid gwneud mwy i feithrin a datblygu pobl ifanc sy'n dangos talent arbennig a/neu botensial mewn celfyddyd benodol.

Gwelsom hefyd bryder gwirioneddol ledled Cymru ynghylch y lleihad mewn gwasanaethau cerddoriaeth a ariennir gan awdurdodau lleol, a theimlwn fod yn rhaid mynd i'r afael â hyn - yn rhannol i sicrhau nad yw'r cyfle i ddysgu canu offeryn yn cael ei gyfyngu i blant rhieni sy'n gallu fforddio talu am wersi, ond hefyd i sicrhau ein bod yn gallu darganfod a meithrin cerddorion ifanc talentog, ble bynnag y bônt yn byw yng Nghymru.

Yn yr Alban, mae Cyngor Cyllido yr Alban yn darparu £300,000 y flwyddyn tuag at gostau darpariaeth i blant iau drwy'r Royal Scottish Conservatoire in Music and Drama. Un o amodau'r grant yw bod y Conservatoire yn sicrhau bod elfennau craidd o'r ddarpariaeth hon ar gael ledled yr Alban. Nid oes cyllid cyfatebol ar gael yng Nghymru (ond mae gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru raglen 'Conservatoire Ifanc' i'r rhai rhwng 8 a 19 oed a chanddynt ddawn neu botensial eithriadol mewn cerddoriaeth neu actio; fodd bynnag dim ond anghenion y rhai sy'n gallu teithio i Gaerdydd ar benwythnosau y mae'n eu diwallu ac mae anhawster o ran cost i'r rhai o gefndiroedd llai cefnog). Mae hyn yn codi dau gwestiwn: (i) a yw rhai o'n hactorion a'n cerddorion mwyaf talentog, yn arbennig y rhai sy'n byw yn rhy bell o Gaerdydd, yn colli cyfle i ddatblygu'r ddawn honno, a (ii) a oes angen mabwysiadu dull tebyg i'r Alban yng Nghymru.

Am amrywiol resymau, ni all ysgolion ddarparu gwersi a chymorth unigol ychwanegol i ddisgyblion â diddordeb a gallu arbennig yn y celfyddydau perfformio. Mae'r math cywir o hyfforddiant cynnar yn hanfodol i ddatblygu'r disgyblaethau corfforol a deallusol sydd eu hangen ar gerddorion, actorion a dawnswyr. Heb hyn, gall fod yn amhosibl i bobl ifanc o'r fath gyrraedd y safon sy'n angenrheidiol i ddechrau ar hyfforddiant uwch yn 18 neu'n 19 oed, ac yna ddilyn gyrfa lwyddiannus yn y celfyddydau.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru

- **Ymchwilio i opsiynau ariannu wedi'u hanelu at sicrhau bod darpariaeth deg ar gael i bobl ifanc ym mhob celfyddyd a bod pobl ifanc eithriadol o dalentog yn gallu meithrin eu talentau.**

Gyrfaoedd yn y celfyddydau a'r sector creadigol

Canfu'r Adolygiad dystiolaeth i ddangos bod perfformiad llawer o ysgolion yn wael o ran egluro'r opsiynau gyrfa posibl yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, ac annog pobl ifanc i fynd ar eu trywydd. Mae angen gwneud rhagor

i addysgu swyddogion gyrfa a phenaethiaid am y gwahanol fathau o yrfaoedd sydd ar gael yn y celfyddydau a'r sectorau creadigol, ac i argyhoeddi pobl ifanc y gall y cyfleoedd hyn arwain at yrfaoedd llwyddiannus a ffyniannus. Yn ogystal, mae angen adolygu ystod ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru, i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r ystod lawn o lwybrau gyrfa sydd ar gael.

Mae angen i wybodaeth am yrfaoedd fod ar gael yn gynnar mewn addysg uwchradd, yn bennaf er mwyn bod yn sail i ddewisiadau pobl ifanc o bynciau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4.

Argymhelliad

- **Dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru weithio mewn partneriaeth i roi pwyslais cryfach ar ddarparu cyngor gyrfa mwy cytbwys i bobl ifanc er mwyn amlygu cyfleoedd a llwybrau gyrfa yn y celfyddydau a sector y diwydiannau creadigol.**

Mesur a chodi safonau

Nid yw Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn cynnwys asesiad manwl o bynciau yn ystod arolygiadau ysgolion ar hyn o bryd. Yn anecdotaidd, gwyddom y caiff rhywfaint o addysg gelfyddydol ei hystyried yn addysg ragorol, ond hefyd y gall ansawdd addysg gelfyddydol ddibynnu weithiau ar a yw'r pennaeth yn gefnogol i'r celfyddydau. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn canolbwyntio'n gryf ar wella llythrennedd a rhifedd, felly gall y celfyddydau lithro oherwydd nid ystyrir eu bod yn bynciau mor bwysig. Hefyd, gall rhai athrawon mewn ysgolion uwchradd fod wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn 'seilos' eu pynciau a gallant weld creadigrwydd fel "yr hyn sy'n cael ei ddysgu mewn gwersi celf, drama a cherddoriaeth".

O gofio'r diffyg data cywir, ar ansawdd y ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar gyfer addysg gelfyddydol, dylid cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol, gyda ffocws ar nodi lefelau ymgysylltu ag artistiaid a sefydliadau celfyddydol, a dadansoddiad cyfnodol o nifer y disgyblion sy'n astudio pynciau celfyddydol ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Credwn fod yn rhaid gwneud newidiadau i'r system arolygu a'r meini prawf arolygu presennol, er mwyn adlewyrchu'n fwy penodol berthnasedd a gwerth y celfyddydau a chreadigrwydd yn niwylliant ysgolion ac ymarfer addysgu. Yn ogystal, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ymarferoldeb a gwerth cysylltu cynllun cydnabyddiaeth ffurfiol ag arolygiadau, yn yr un modd neu'n debyg i'r cynlluniau 'Ysgolion Iach' neu 'Eco-Sgolion', ond gyda phwyslais ar y celfyddydau. Gallai cynllun o'r fath fod yn gymhelliant i ysgolion ddatblygu diwylliant sy'n canolbwyntio mwy ar y celfyddydau.

Argymhelliad

- **Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal archwiliad rheolaidd o ysgolion Cymru i asesu i ba raddau y mae dysgu creadigol yn cael ei ymgorffori ynddynt, ac ansawdd y profiad celfyddydol parhaus a'i effaith ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd.**

8. Casgliad: achos Cymru

Yn ein system addysg dylai'r celfyddydau fod yn greiddiol ac ni ddylent byth eto, am ba bynnag reswm, fod yn ymylol.

Os hoffwn gyflwyno'r ddadl iwtilitaraidd y dylai'r celfyddydau yng Nghymru fod yn nod eiconig yn ei system addysg, yna rhaid rhestru'r ffactorau allweddol. I ddechrau, nid yw diwydiannau creadigol mewn economïau gwirioneddol greadigol yn efelychu neu'n sgil-gynnyrch arloesedd o fan arall, maent yn cael eu creu yma. Er mwyn i greadigrwydd o'r fath ffynnu - fel yr hinsawdd a grëwyd yng Ngholegau Celf Prydain yn y 1960au a adawodd ei hôl ar y byd - mae angen y rhyddid sy'n gysylltiedig â fframwaith rheoleiddio llacach. Mewn ysgolion, dylid parchu i athrawon proffesiynol medrus am eu creadigrwydd ochr yn ochr â'u cyfrifoldeb dros ddeilliannau addysgol.

Wrth gwrs, ni all ysgolion ynddynt eu hunain unioni'r holl ddifrod cyfochrol sy'n deillio o sawl ffurf ar amddifadedd neu sy'n gysylltiedig â dulliau rhianta gwael neu gamweithredol, ond gallant fod yn fyd arall, yn hafan ddiogel, neu'n sbardun hyd yn oed. Ac er mwyn bod yn unrhyw un o'r pethau hynny rhaid iddynt ddal eu gafael ar eu disgyblion os ydynt am fod yn gefn iddynt. Rhaid i ysgolion sicrhau presenoldeb a sylw parhaus os am gynnig y gobaith o gyflawniad.

Y cwricwlwm yw'r allwedd, ond profiad ysgol cyfan o drwydded ddiwylliannol i fywyd yw'r rhwyd ar gyfer y ddalfa. Ni all y celfyddydau mewn addysg unioni'n llwyr yr anghydbwysedd rhwng y rhai a allai fod yr un mor ddawnus ond sydd hefyd yn cael eu rhannu gan y gwahanol gyfleoedd bywyd yn sgil eu cefndiroedd, ond maent yn rhoi cyfle, a hynny bron yn unigryw,

"Ein prif nod yw annog pob myfyriwr yn Eton i fod yn…hunanymwybodol, yn chwilfrydig, yn oddefgar…yn gyflawn…gyda meddwl annibynnol…i sefyll dros ddiben sy'n fwy nag ef ei hun, a thrwy wneud hynny, bod o werth i gymdeithas…

(Gyda) phynciau yn amrywio o Wagner i goginio, o Newyddiaduraeth i Fecaneg Amaethyddol…mae myfyrwyr Eton yn byw ac yn gweithio mewn amgylchedd cyfoethog…Mae astudiaethau academaidd yn bwysig…ond mae ein barn am addysg yn dathlu'r creadigol, y corfforol a'r ysbrydol yn gymaint â'r deallusol…

…boddhad sy'n gallu trosglwyddo i feysydd eraill o fywyd yr ysgol…mae dewisiadau gyrfa yn tywys llawer ar hyd llwybrau traddodiadol i'r ddinas, i fyd y gyfraith, i feddygaeth, i'r fyddin ac i wasanaethau cyhoeddus, ond y dyddiau hyn hefyd mewn niferoedd mwy i'r cyfryngau, y celfyddydau creadigol ac antur entrepreneuraidd."

Prosbectws 2013, Coleg Eton

i bob plentyn deimlo'n 'gyfan' drwy gyd-ddefnyddio'r galon, y llaw a'r meddwl, fel y dywedodd Ruskin. Ble bynnag yr edrychwn yng Nghymru heddiw mae undod dinesig priodol a dymunol ein gwlad yn galw am fod yn 'gyfan' yn y ffordd honno – cydlyniant o emosiwn a deallusrwydd sy'n tarddu o'r celfyddydau, yr hyn sy'n diffinio beth yw bod yn ddynol, sut i ymddwyn a beth i'w wneud.

"Mae gan ddarluniau diagramatig y potensial i ddod yn iaith ryngwladol y meddwl, dadansoddi, dogfennu, dosbarthu, ymchwilio a chyfathrebu, heb ei llyffetheirio gan gyfyngiadau geiriau, gall weithredu ar bob lefel o gyflawniad dynol, o'r feithrinfa i'r labordy ffiseg … mae'r ystafell gelf wedi herwgipio darlunio, ac mae hynny i'w ddeall, ac felly mae'n bwysig bod gweddill y maes addysg yn croesawu ac yn rhyddhau'r posibiliadau aruthrol sy'n gysylltiedig â'r diagramatig … Nid yw'r marciau a wnawn yn ddisgrifiadol o reidrwydd. Gwnawn gynigion, datganiadau graffig ac yna rydym yn eu herio yn erbyn y dystiolaeth …(Mewn llythrennedd graffig) rydym yn darlunio i feddwl a darlunio yw meddwl."

Osi Rhys Osmond, Arlunydd, 2013

Os gofynnwn yn fwy cyffredinol pwy sy'n elwa fwyaf o gyfoeth y celfyddydau ar hyn o bryd, mae'r ateb yn nodedig: y rhai pwerus a breintiedig y mae'r celfyddydau iddynt hwy yn arwydd o'r hunan ac yn ategiad i'r wybodaeth a gyflwynant i'r farchnad ddatblygu. Os gofynnwn, yr un mor gyffredinol, pwy felly a ddylai elwa ar y cyfoeth o bosibliadau yn sgil addysg gelfyddydau, mae'r ateb yn alwad gref: y rhai sydd wedi'u hamddifadu a'r rhai ar yr ymylon y mae'n cynnig dihangfa iddynt o fod yn ddi-rym a phorth i ddinasyddiaeth. Mae ein hanes ni ein hunain yn naratif o'r cymodi a ddigwyddodd unwaith rhwng pegynnau o'r fath: boed yn Ddeddf Addysg Canolradd 1889 a roddodd addysg gwell i Gymru mewn ysgolion uwchradd y wladwriaeth nag a fu gan Loegr ers cenedlaethau; neu sefydliadau'r gweithwyr a fu, drwy eu llyfrgelloedd a'u cymdeithasau dadlau, yn fforymau diwylliedig ar gyfer cymunedau dosbarth gweithiol; neu'r ysbrydolaeth y tu ôl i ddysgu-drwy-chwarae y mae ein llywodraeth bellach wedi'i ymgorffori yn addysg y blynyddoedd sylfaenol.

Mewn ysgolion cynradd mae gennym yng Nghymru fodelau rôl o'r defnydd gorau o ddysgu pynciau a dysgu thematig ar draws disgyblaethau pwnc. Mae ysgolion sy'n cael eu harwain mewn ffordd ddychmygus ac sy'n effro i dechnoleg yn defnyddio'r celfyddydau i ddangos i'w disgyblion sut i chwilio am yr offer sy'n datgloi'r cistiau trysor sy'n llawn gwybodaeth bellach a dyfnach, a defnyddio'r offer hynny. Mae cyd-ddysgu yn gwella sgiliau cyfathrebu a gall gynyddu hunan-fri.

Mae'r ysgolion hyn yn gymunedau a chanddynt ddiben lle mae llythrennedd a rhifedd, ar yr un pryd, yn cael eu cyflwyno drwy'r celfyddydau ac yna mae'r sgiliau sylfaenol hyn yn cael eu rhoi ar waith wrth i ddisgyblion ymestyn at brofiadau creadigol ac arloesi eraill yn sgil darllediadau, fideos, ffilmiau, cyfansoddi cerddoriaeth, ysgrifennu creadigol, archwilio'r corff, a gwyddoniaeth, llwybrau ieithyddol a gweithgareddau perfformio. Rydym wedi gweld, ac wedi cofnodi yma, sut y caiff hanes a daearyddiaeth a phynciau eraill eu haddysgu, a hynny mewn steil, drwy ddefnyddio'r holl

"Mae creadigrwydd, fel dysgu yn gyffredinol, yn broses bersonol iawn. Mae gennym oll wahanol ddoniau a galluoedd a gwahanol ffyrdd o ddeall pethau. Mae gwella cyflawniad mewn ysgolion yn golygu rhoi lle i'r gwahaniaethau hyn ac nid pennu ras ffos a pherth safonol i bawb ei chwblhau ar yr un pryd ac yn yr un ffordd...Nid proses linellol yw creadigrwydd, lle y mae'n rhaid i chi ddysgu'r holl sgiliau angenrheidiol cyn dechrau arni. Mae'n wir bod gwaith creadigol mewn unrhyw faes yn golygu meistrolaeth gynyddol o sgiliau a chysyniadau. Nid yw'n wir bod angen eu meistroli cyn y gall y gwaith creadigol ddechrau. Gall canolbwyntio ar sgiliau ar eu pen eu hunain ladd diddordeb mewn unrhyw ddisgyblaeth…Yr hyn sy'n sbarduno creadigrwydd mewn gwirionedd yw'r awydd i ddarganfod ac angerdd dros y gwaith ei hun. Pan gaiff myfyrwyr eu hysgogi i ddysgu, maent yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud y gwaith yn naturiol… Er mwyn i greadigrwydd ffynnu, rhaid i ysgolion deimlo pob rhyddid i arloesi…. Mae gormod o gyfarwyddo yn lladd ysbryd creadigol athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd...Y dystiolaeth o ran systemau sy'n perfformio'n dda o amgylch y byd yw bod gwelliannau gwirioneddol yn dibynnu ar ymgysylltiad cadarnhaol â'r proffesiwn. Nid oes ffordd arall."

Syr Ken Robinson yn 2013

saethau addysgol hyn mewn un cawell ddysgu.

Ar lefel ysgolion uwchradd, gan fod y celfyddydau yn cyfleu ein dyneiddiaeth gyffredin a'n diwylliant yn ddyfnach nag unrhyw ddull cyfathrebu arall, dylent unwaith eto, fod yn sylfaen yr addysg sy'n arwain at gaffael a chofio gwybodaeth.

Yn hynny o beth, maent yn hanfod unrhyw addysg ddynol, oherwydd bydd angen i ni warantu bod sbardunau technolegol ein bywydau ni yn y dyfodol yn cael eu cymdeithasoli'n gyfan gwbl os ydym am eu defnyddio'n economaidd ac yn ddiwylliannol i ddiffinio pwy ydym a ble rydym eisiau mynd fel cymdeithas ag iddi wreiddiau (lleol) mewn byd hyblyg (byd-eang).

Mae dewisiadau amgen na fyddem o bosibl yn dyheu amdanynt, ond dyma a ddaw os na fyddwn yn effro i'r hyn y bydd angen i ni ei wneud i frwydro yn eu herbyn.

Bydd athrawon yn arwain y ffordd, neu ni fydd hyn yn digwydd. Er mwyn helpu, dylem gefnogi neu sefydlu cronfeydd arwain a fforymau rhanbarthol. Dylai pob ysgol gael mynediad i Bencampwr neu Hwylusydd neu Reolwr y Celfyddydau dan gyfarwyddyd Arweinydd Creadigol a'r Celfyddydau, gan weithio gyda grwpiau clwstwr o artistiaid ac athrawon, a chyd-drafod gydag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol. Dylai pob plentyn gael profiad celfyddydol a diwylliannol drwy gydol ei flynyddoedd ysgol: Pasbort Diwylliannol i Gyflawniad. Dylai ysgolion allu gwneud cais i gronfa adnoddau newydd yn sgil ail-flaenoriaethu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a'u hariannu ymhellach gan Lywodraeth Cymru i greu ysgolion sy'n gyfoethog yn y celfyddydau. Byddai ysgolion yn cael eu cydnabod felly drwy Nod Celfyddydau Cymru. Mae ein dadl yn un y disgwylid iddi dalu ar ei chanfed, a chael ei monitro gan Estyn i sicrhau na fyddai baglu yn gyfystyr â methiant ac na fyddai llwyddiant yn rheswm i oedi.

Y celfyddydau mewn addysg yw'r offeryn gorau (o bosibl) sydd gennym er mwyn rhoi dyfodol cenedl fach (hyderus) ar lwyfan rhyngwladol. Dim ond os byddwn yn cymryd cam ymlaen y gallwn gymryd y clod.

Os gofynnir i ni hoelio'r ddadl yna, yn ddigamsyniol, trown ein sylw at hynodrwydd cynhenid y cynnig ar gyfer celfyddydau-mewn-addysg yn Ysgolion Cymru drwy ofyn cyfres o gwestiynau syml:

A allwn ddychmygu Cymru a fu heb ei mynegiant ac sy'n parhau i fod felly:

Mewn barddoniaeth? Mewn cân? Mewn delweddau? Mewn sain? Mewn gofod? Mewn symudiadau? Mewn geiriau? Mewn storïau? Mewn ffilm? Mewn iaith ei hun?

Yn yr ystyr hwn nid yw'r celfyddydau'n ymwneud â sicrhau ffyrdd neu ddulliau eraill o fyw, mae'n fywyd ei hun. Mae'n rhodd gorffennol cenedl i gymdeithas y dyfodol. Nid oes dim sy'n bwysicach i Gymru ei hun.

Mae'r adroddiad wedi'i gynllunio i ddangos i ni beth rydym am i'n dinasyddion fod: nid dim ond yr hyn y byddant yn ei wybod neu'r hyn y gallant ei wneud, ond pam a sut ac ar gyfer beth y maent wedi cael eu haddysgu i fyw.

"Creais fy Sefydliad i Blant a'r Celfyddydau oherwydd fy nghred sylfaenol y dylai pawb gael cyfle yn ifanc iawn i gael eu hysbrydoli gan y Celfyddydau…Mae gan y Celfyddydau y pŵer i lywio bywydau, rhoi ysbrydoliaeth a deffro doniau. Ni ddylid edrych arnynt fel rhywbeth ychwanegol a dewisol i blant neu fel ymarfer mewn elitaeth."

Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn, ond hoffwn ddiolch yn arbennig i'r staff canlynol yn Llywodraeth Cymru a weithiodd mor galed i roi cymorth gweinyddol i mi yn ystod yr adolygiad:

Andrew Holmes, Peter Owen, Liz Powell, Nia Jones, Allyn Davies, Tim Jenkins, Beth Sherliker, Jayne Lloyd a Geraint Hamer.

Hoffwn hefyd ddiolch i Diane Hebb a Sally Lewis o Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cyfraniadau defnyddiol iawn, ac i holl aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am eu barn a'u cyngor defnyddiol drwy gydol yr Adolygiad.

Dai Smith

Ysgol Uwchradd Willows – prosiect Dawns Rubicon



Cylch Gorchwyl adolygiad y celfyddydau mewn addysg Llywodraeth Cymru

Bydd yr arolygiad yn:

- Edrych ar y ddealltwriaeth o'r celfyddydau a'r ymwneud â hwy mewn ysgolion yng Nghymru, ac edrych ar ymarfer addysg gelfyddydol yng nghyd-destun Cymru.
- Edrych ar yr hyn y mae ysgolion yn ei wneud i annog pobl ifanc i gyfranogi yn y celfyddydau ac i feithrin ethos sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau creadigol yn yr amgylchedd ysgol.
- Ystyried beth mae'r celfyddydau'n ei wneud i ymgysylltu ag ysgolion a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr - yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Nodi arferion da a'r rhwystrau i arferion da; ymchwilio i fodelau ar gyfer dull cynhwysol, ysgol gyfan o gyflwyno addysg gelfyddydol; gwneud argymhellion ar sut y gall sefydliadau celfyddydol gefnogi ysgolion yn well i ddatblygu sgiliau creadigol a sicrhau'r effaith fwyaf posibl yn sgil cydweithio yn y maes hwn.

Tasgau allweddol

Dylai'r adolygiad nodi camau i ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau celfyddydol a Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella'r deilliannau addysg yn sgil cyfranogi yn y celfyddydau. Bydd disgwyl i dîm yr adolygiad edrych ar arferion gorau a gwneud argymhellion ynghylch:

1. Y cyfleoedd y mae ysgolion yn eu cynnig i bobl ifanc gymryd rhan yn y celfyddydau ac i ddatblygu eu sgiliau creadigol;
2. Sut y gellir defnyddio'r celfyddydau'n effeithiol i gefnogi addysgu ar draws y cwricwlwm, yn arbennig llythrennedd;
3. Sut y gallai addysgu pynciau celfyddydol mewn ysgolion helpu i ddatblygu lles emosiynol a sgiliau rhyngbersonol ac addysgu dysgwyr am faterion cymdeithasol;
4. Sut y gall sefydliadau celfyddydol ac unigolion ddarparu gwell cymorth i ysgolion er mwyn ymgysylltu â phob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn y celfyddydau;
5. Sut y gall sefydliadau addysg ac unigolion ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau creadigol, lles emosiynol, sgiliau rhyngbersonol a sgiliau iaith;
6. Y rhwystrau sy'n atal ysgolion a sefydliadau celfyddydol/unigolion rhag cydweithio a sut y gellir goresgyn y rhain.

Geirfa

Acronym	Ystyr
AAA	Anghenion addysgol arbennig
AB	Addysg Bellach
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AU	Addysg Uwch
BBC	Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CRhA	Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
DPC	Datblygiad Proffesiynol Cynnar
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
HMS	Hyfforddiant Mewn Swydd
PCA	Paratoi, cynllunio ac asesu
SAC	Statws Athro Cymwysedig
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrbeu